# PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – YMCHWILIAD I WERTHU CYMRU I'R BYD

Diben y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar eu hymchwiliad i Werthu Cymru i'r Byd. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r hyn sydd wedi ei wneud hyd yn hyn i werthu Cymru dramor, yn bennaf ym meysydd masnach, twristiaeth a sgiliau/hyfforddiant. Ceir diweddariadau hefyd, yn atodiad c a ch, o adroddiadau o'r Cynlluniad diwethaf: Twristiaeth (Tachwedd 2014) ac agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi (Hydref 2014)

## Sut y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwerthu Cymru i'r Byd ar hyn o bryd o ran masnach, twristiaeth a sgiliau/hyfforddiant

Mae Gwerthu Cymru i'r Byd bob amser wedi bod yn ymdrech ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cynnal perthynas allweddol â:

- Adrannau Llywodraeth y DU - gan gynnwys Masnach Ryngwladol (DIT), Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO), a Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS);
- Cyrff eraill fel Siambrau Masnach, VisitBritain a'r British Council;
- Sefydliadau allweddol yng Nghymru gyda buddiannau rhyngwladol fel Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mae ein swyddfeydd tramor wedi'u lleoli ym marchnadoedd strategol bwysig Ewrop, UDA, Tsieina, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, India a Japan ac maent yn rhan bwysig o'n dull ni o werthu Cymru – pa un a yw hwn yn lle i fuddsoddi ynddo, lle i brynu nwyddau ynddo, astudio ynddo neu'n lle i ymweld ag ef.

O ran **masnach,** mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen o weithgareddau datblygu busnes ac yn cynnig amrywiaeth o gymorth i allforwyr sydd wedi ei deilwra i ddiwallu anghenion pob cwmni.

Caiff gweithgareddau craidd eu sbarduno gan ein rhaglen o ddigwyddiadau tramor, a gyhoeddir yn flynyddol ac sy'n galluogi cwmnïau i deithio i farchnadoedd i gyfarfod â chwsmeriaid neu fynd i arddangosfeydd a sioeau masnach. Mae'n cynnwys cymysgedd o farchnadoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a all fod yn fwy heriol, fel Singapore, yn ogystal â marchnadoedd mwy traddodiadol lle ceir cymharol ychydig o rwystrau i gwmnïau o Gymru eu goresgyn, fel yr Iseldiroedd ac UDA. Mae hyn yn caniatáu i ni ychwanegu gwerth i allforwyr mwy profiadol gan hefyd sicrhau bod allforwyr newydd yn gallu archwilio allforio mewn amgylchedd diogel a sicr.

Mae ein hymgyrchoedd **twristiaeth** yn arwain brand Cymru ac yn hyrwyddo ein cenedl yn rhyngwladol, ac mae ein strategaeth twristiaeth yn nodi ein

blaenoriaethau a'n marchnadoedd rhyngwladol allweddol. Ceir pwyslais allweddol yn ein hymgyrchoedd twristiaeth rhyngwladol presennol (y tu hwnt i'n marchnata craidd yn y DU ac Iwerddon) ar Ewrop (gyda phwyslais penodol ar yr Almaen) a Gogledd America. Hefyd mae gweithgaredd marchnata partneriaeth wedi'i dargedu yn canolbwyntio ar y llwybrau awyr sy'n gweithredu o Gaerdydd, gan ddarparu cysylltiadau allweddol rhwng Cymru a marchnadoedd tramor. Mae Croeso Cymru hefyd yn gweithredu rhaglen masnach twristiaeth hamdden sy'n rhagweithiol ar draws ystod o farchnadoedd rhyngwladol, gan dargedu gweithredwyr teithiau i mewn i Gymru.

Ceir pwyslais allweddol yn y negeseuon sy'n gysylltiedig â Chymru fel cyrchfan ar gyfer **busnesau** i fuddsoddi ynddi ar y rhaglenni **sgiliau/hyfforddi** cystadleuol a gynigir i fusnesau a leolir yma ar gyfer eu gofynion gweithlu. Roedd gallu sicrhau gweithlu medrus a chymorth cysylltiedig ar gyfer recriwtio a rhaglenni hyfforddi yn un o'r prif ffactorau a arweiniodd at Aston Martin yn dewis Sain Tathan yn ail safle gweithgynhyrchu yn y DU (o 20 o leoliadau byd-eang posibl a ystyriwyd).

Mae'r sector **twristiaeth** wedi ei nodi yn sector allweddol yn y **cynlluniau cyflogaeth a sgiliau** rhanbarthol a gyflwynwyd yn ddiweddar i Lywodraeth Cymru gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Nod y cynlluniau yw dechrau sbarduno penderfyniadau cynllunio ar gyfer darparwyr a sefydlu sail dystiolaeth hanfodol i'w defnyddio i wneud penderfyniadau am fuddsoddi mewn sgiliau yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn darparu'r mecanwaith i Lywodraeth Cymru alinio'r ddarpariaeth sgiliau â chyfleoedd buddsoddi a thwf, gan gynnwys y blaenoriaethau a nodwyd gan Ardaloedd Menter, Dinas-ranbarthau/Cynigion Twf a phrosiectau ar y cyd posibl ar draws y ffin.

Mae'r **Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr Sgiliau** yn gweithio'n uniongyrchol â chyflogwyr i gefnogi anghenion sgiliau prosiectau ehangu cynhenid sylweddol a buddsoddwyr tramor posibl. Mae'r tîm yn ategu ac yn gweithio ar y cyd ag Is-adran Masnach a Buddsoddiad Rhyngwladol Cymru sy'n arwain pecyn Llywodraeth Cymru o gymorth ar gyfer y prosiectau hyn.

Swyddogaeth allweddol y Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr yw darparu cyngor ac arweiniad unigol i helpu i lywio a hybu'r ystod o sgiliau, hyfforddiant a chymorth cyllid sydd ar gael yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyflogwyr a buddsoddwyr posibl yn gallu ffurfio perthynas gynhyrchiol â darparwyr hyfforddiant Cymru, yn enwedig Addysg Uwch ac Addysg Bellach, nid yn unig i gael yr hyfforddiant gofynnol ond hefyd i ddylanwadu ar ddarpariaeth yn y dyfodol i sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad Cymru yn parhau i ddiwallu anghenion ein cyflogwyr.

## Swyddogaeth swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru

Mae'r swyddfeydd tramor yn amlbwrpas; maent yn gyfrifol am gyfrannu at weithgarwch Llywodraeth Cymru ym meysydd masnach a buddsoddi, y berthynas â llywodraethau eraill, twristiaeth, diwylliant ac addysg. Maent yn rhoi wyneb i Gymru yn y wlad berthnasol, yn datblygu ac yn cynnal perthynas

ag eraill, gan hwyluso cyfarfodydd busnes ac ymgysylltu strategol â Swyddi Prydeinig a chymdeithasau Cymreig. Mae'r swyddfeydd tramor yn darparu cymorth allweddol ar gyfer ymweliadau Gweinidogol dramor, gan gyflawni rhaglen o weithgarwch sy'n anelu at wella enw da Cymru fel gwlad i fuddsoddi ynddi, i wneud busnes, gweithio ac astudio ynddi, ac i ymweld â hi.

£550,463.90 oedd cyfanswm costau gweithredu swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru yn ystod 2016-17. Mae'r tabl yn atodiad A yn rhoi'r manylion fesul swyddfa fel y nodir yn adroddiad Cyflwr yr Ystad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16.

Ceir 15 o gynrychiolaethau mewn 7 gwlad ar hyn o bryd: Gwlad Belg; Tsieina; India; Iwerddon; Japan; Yr Emiraethau Arabaidd Unedig; ac Unol Daleithiau America. Mae 32.5 o swyddi tramor Llywodraeth Cymru sy'n cyfateb ag amser llawn wedi'u cynnwys yn y cynrychiolaethau hynny. Ceir manylion llawn y swyddi ar sail yr hyn sy'n cyfateb iddynt o fewn Llywodraeth Cymru yn Atodiad B.

Mae ein swyddfeydd tramor yn gweithio ar y cyd â staff yng Nghymru i werthu Cymru i'r byd. Maent yn cynorthwyo i agor drysau, nodi a chynnal perthynas ag eraill a chreu sbardunau economaidd. Maent yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau sy'n meithrin perthynas, casglu gwybodaeth a chodi proffil gyda llywodraethau a busnesau fel ei gilydd; mae llawer o'r gweithgarwch hwn yn anodd ei feintioli ond mae'n hanfodol i gyflawniadau Llywodraeth Cymru yn y gwledydd hyn.

**<u>Cymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer allforwyr, a mewnfuddsoddi</u>**

Mae masnach a buddsoddiad rhyngwladol yn cynorthwyo i dyfu a chynnal economi gref yng Nghymru.

<u>Allforion</u>

Rydym yn cydnabod bod allforio yn sbarduno ac yn galluogi twf a'i fod yn creu cyfleoedd economaidd i unigolion a busnesau. Mae busnesau sy'n allforio yn dueddol o dyfu yn fwy cyflym, maent yn fwy cydnerth ac maent yn talu cyflogau uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau i dyfu eu gallu i allforio drwy ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhwystrau mewn pedwar maes allweddol:

- ysbrydoli cwmnïau i weld bod allforio yn gyfrwng ar gyfer tyfu;
- trosglwyddo'r wybodaeth a'r sgiliau i helpu cwmnïau i gynyddu eu gallu i allforio;
- helpu cwmnïau i gysylltu â chwsmeriaid posibl dramor; a
- cefnogi ymweliadau ag archfarchnadoedd tramor.

Cyflawnir yr amcanion hyn gan gynghorwyr allforio profiadol gyda chymorth pum rhaglen:

- Digwyddiadau yng Nghymru;
- Y Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol (ITD);
- Y Rhaglen Cyfleoedd Masnach Rhyngwladol (ITO);
- Digwyddiadau Tramor (gan gynnwys teithiau masnach);
- Cynllun grantiau Ymweliad Datblygu Busnes Tramor (OBDV).

Gall cwmnïau o Gymru gael cymorth a gynigir gan Lywodraeth y DU hefyd, fel UK Export Finance (UKEF), a chyfleoedd busnes; mae ein rhaglenni yn ategu'r cymorth hwnnw, gan leihau unrhyw ddryswch i fusnesau.

I fesur effaith ein cymorth, rydym yn ystyried faint o fusnes a sicrhawyd gan gwmnïau yr ydym wedi eu cynorthwyo. Y llynedd, er enghraifft, sicrhaodd cwmnïau o Gymru dros £70 miliwn o fusnes allforio newydd o ganlyniad i gymorth gan Lywodraeth Cymru.

<u>Mewnfuddsoddi</u>

Mae'r DU a busnesau a berchnogir yn rhyngwladol sy'n buddsoddi yng Nghymru yn dod â llawer o gyfleodd lleol  trwy feysydd fel y gadwyn cyflenwi, ymadweithio academaidd a datblygu sgiliau. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyflogi, yn darparu ar gyfer pob lefel o allu a chynnig cyfleoedd datblygu i bawb. Maent hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ein sefyllfa allforio gan fod llawer o'u cynhyrchion a'u gwasanaethau i'w darparu'n rhyngwladol.

Mae gan Gymru economi agored sy'n wynebu tuag allan ac mae'n gyrchfan hirsefydledig ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol o dramor yn ogystal â buddsoddiad o rannau eraill o'r DU; mae'r ddau'n allweddol i economi Cymru.

Mae ein cymorth ar gyfer buddsoddwyr yn amrywiol ond caiff ei deilwra er mwyn bodloni gofynion y cwmni. Mae'n amrywio o ddarparu un pwynt cyswllt penodol i ateb ymholiadau, i ddarparu gweithgareddau â mwy o ffocws fel nodi eiddo priodol neu gynnig cymorth ariannol. Heb amheuaeth, mae cyfranogiad Gweinidogion wedi bod yn ffactor allweddol wrth sicrhau rhai o'r llwyddiannau diweddar; mae hyn yn anfon neges glir i gwmnïau ein bod o ddifrif ynghylch denu eu buddsoddiad.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi cwmnïau ar ôl iddynt gyrraedd Cymru. Mae gennym raglen o ôl-ofal cynhwysfawr â rheolwyr cyfrifon penodol pan fo hynny'n briodol.

Mae buddsoddiad yng Nghymru gan gwmnïau o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys rhannau eraill o'r DU, wedi cyrraedd lefelau uwch nag erioed o'r blaen yn y blynyddoedd diweddar. Mae hyn yn brawf o enw da Cymru fel lle gwych i wneud busnes ac yn dangos tystiolaeth bod ein dull addas ar gyfer cwmnïau yn talu ar ei ganfed.

**<u>Yr wybodaeth ar wefan 'Wales.com' ac yn benodol y cymorth a roddwyd gan Busnes Cymru</u>**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol yn rheoli neu'n ariannu pedair gwefan ryngwladol i hybu Cymru:

- *croeso.cymru* – sy'n hybu twristiaeth ac yn denu ymwelwyr hamdden i Gymru;
- *studyinwales.ac.uk* – sy'n hybu Cymru i fyfyrwyr rhyngwladol
- *tradeandinvest.wales* – sy'n hybu Cymru i gynulleidfa fusnes ryngwladol yn ogystal â rhanbarthau eraill o'r DU;
- *wales.com* – gwefan drawsbynciol sy'n gweithredu hefyd fel porth i wefannau eraill. Mae'n cyfarwyddo ymwelwyr busnes ac ymholiadau at wefan *tradeandinvest.wales* a thîm Busnes Cymru.

Ein nod barhaus yw gwella ein hôl troed digidol a bydd ein prosiect newydd Porth Digidol Cymru yn cynnig integreiddio gwell rhwng y gwefannau presennol ac yn darparu llwybr mwy di-dor i gynulleidfaoedd sy'n chwilio am wybodaeth am Gymru. Bydd hyn yn cynnwys dull mwy canolog o gynhyrchu cynnwys, a phwyslais ar wthio allan cynnwys atyniadol o ansawdd uchel am Gymru yn fwy aml ar draws ein gwefannau. Bydd pwyslais penodol ar *wales.com* ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy amrywiol a allai fod â diddordeb mewn dysgu mwy am ein cenedl.

Caiff y prosiect ei gefnogi gan strategaeth marchnata digidol mwy soffistigedig sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y defnyddwyr ar draws y portffolio o wefannau sy'n hybu Cymru. Ceir hefyd fframwaith gwerthuso newydd a fydd yn darparu llif rheolaidd o ddata i lywio penderfyniadau tactegol a strategol. Ochr yn ochr â hyn, cyflwynir dull tebyg hefyd o gynllunio cynnwys ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwefan Busnes Cymru yn canolbwyntio ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru sy'n ceisio dechrau neu dyfu busnes. Fe'i cefnogir gan ymgyrch farchnata barhaus. Mae gwefan *tradeandinvest.wales* yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd y tu allan i Gymru ac yn ceisio hysbysu a denu busnesau posibl i fuddsoddi yng Nghymru. Os yw busnes sydd wedi'i leoli yng Nghymru yn chwilio am gymorth busnes, ac yn mynd i wefan *tradeandinvest.wales*, caiff ei gyfeirio at wefan Busnes Cymru (*businesswales.gov.wales/cy*).

Ers lansio *tradeandinvest.wales* ym mis Tachwedd 2016 a diwedd mis Gorffennaf 2017:

- mae mwy na 76,000 o ymwelwyr unigryw wedi mynd i'r wefan – 58 y cant yn fwy na'r wefan flaenorol *JustAskWales.com* dros yr un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- mae'r sianel Twitter cysylltiedig @*InvestWales* wedi tyfu o fod â rhyw 600 o ddilynwyr i fod â mwy na 9,100 o ddilynwyr.

## <u>Eglurder a chryfder "brand" twristiaeth ryngwladol Cymru</u>

Datblygwyd y brand cyrchfan ar gyfer Cymru a'i gyflwyno am y tro cyntaf yn gynnar yn 2016 drwy ymgyrch twristiaeth Cymru *Blwyddyn Antur*. Mae'r

strategaeth y tu ôl i'r brand yn gymhellol ac yn atyniadol; a'r nod yw hybu enw Cymru fel cyrchfan twristiaeth ar lwyfan y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal ag ysbrydoli rhanddeiliaid twristiaeth yng Nghymru a chreu ymdeimlad o hyder yn y diwydiant.

Roedd y brand newydd yn darparu llwyfan ar gyfer dull blwyddyn thema twristiaeth, a gyflwynwyd drwy Blwyddyn Antur 2016 ac yna Blwyddyn Chwedlau 2017, Blwyddyn y Môr 2018 a Blwyddyn Darganfod 2019. Nod pob thema yw gwneud mwy i werthu'r hyn sy'n unigryw am Gymru a manteisio i'r eithaf ar gryfderau presennol yr hyn y mae Cymru yn ei gynnig i dwristiaid neu gryfderau sy'n esblygu; a'n mantais gystadleuol dros gyrchfannau eraill.

Wrth wraidd y brand ceir system hunaniaeth weledol gref, gan gynnwys defnydd cyfoes a syml o eicon cyfarwydd y ddraig sy'n ailsefydlu'r cysylltiad â'r faner genedlaethol. Conglfaen arall i'r hunaniaeth weledol yw'r ffurfdeip pwrpasol, Cymru Wales Sans, a ysbrydolwyd gan dreftadaeth deipograffyddol Cymru ac sy'n cynnwys deugraffau sy'n unigryw i'r Gymraeg, gan greu 'glud' sy'n tynnu ynghyd y gwahanol feysydd gweithgaredd.

Yn ogystal â darparu llwyfan ar gyfer ymgyrchoedd twristiaeth rhyngwladol Croeso Cymru, nod y brand hefyd yw ysbrydoli profiadau twristiaeth newydd cyffrous a fydd yn helpu i ddatblygu màs critigol o brosiectau o'r radd flaenaf yn y byd i greu canfyddiadau newydd o Gymru fel cyrchfan twristiaeth greadigol a chyfoes.

Mae'r brand newydd eisoes wedi cael llawer o gefnogaeth a brwdfrydedd y rhanddeiliaid, y diwydiant a'r defnyddwyr, nid yn unig am ei hunaniaeth storïol a gweledol syml ond cymhellol, ond hefyd oherwydd bod canlyniadau cynnar yr ymgyrch yn dangos bod y dull newydd yn gweithio. Fe'i cefnogir hefyd gan sawl brand o ansawdd uchel (fel Aston Martin, Monocle, Red Bull ac ati) sy'n awyddus i atgyfnerthu'r gwaith sy'n cael ei wneud i hybu Cymru i'r byd.

**Llwyddiant gweithgareddau marchnata rhyngwladol Croeso Cymru**

Cyhoeddwyd canlyniadau blwyddyn lawn Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2016 ar 18 Mai, sy'n dangos:

- cynnydd o 10.8 y cant yn nifer y teithiau i Gymru o'u cymharu â 2016, a chynnydd o 8.3 y cant yn y gwariant ar dripiau; a
- chafwyd 1.074 miliwn o ymweliadau rhyngwladol â Chymru yn 2016, ac roedd y gwariant cysylltiedig yn £444 miliwn.

Dyma'r tro cyntaf ers 2008 i Gymru ddenu mwy na miliwn o ymwelwyr rhyngwladol. O ran gwariant, rhain yw'r ffigyrau uchaf a gofnodwyd erioed ar gyfer Cymru.

Roedd gwariant ychwanegol gan ymwelwyr y gellid ei briodoli'n uniongyrchol i ymgyrchoedd a gweithgareddau marchnata Croeso Cymru yn 2016 dros £361 miliwn; cynnydd o bron 18 y cant o'i gymharu â 2015. Mae buddsoddiad parhaus yn *visitwales.com* wedi bod yn rhan sylweddol o'r cynnydd hwn

mewn refeniw a sbardunwyd gan weithgareddau marchnata twristiaeth Croeso Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae nifer y bobl sy'n dilyn Croeso Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi tyfu i un filiwn. Mae ymchwil gychwynnol yn awgrymu bod hon yn gynulleidfa y cafwyd llawer iawn o gyswllt â hi ac y dylanwadwyd yn uniongyrchol arnynt i ymweld â Chymru o ganlyniad i'r cyfathrebu a fu â nhw o ran cynnwys, gan gyfrif am ryw £30 miliwn o'r gwariant ychwanegol y rhagwelwyd y byddai'n cael ei greu yn 2016.

Mae lle i wella o ran tyfu proffil a pherfformiad Cymru ymhellach ar diriogaethau rhyngwladol a sbarduno diddordeb newydd o werth uchel yng Nghymru.

**<u>Sut y mae Colegau/Prifysgolion yn hybu astudio rhyngwladol yng Nghymru</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hybu Cymru fel gwlad i astudio ynddi ar *wales.com* ac mae'n gweithio'n agos gyda'r British Council a Study in Wales, sy'n rhoi i fyfyrwyr rhyngwladol yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnynt am astudio yng Nghymru.

Mae Cymru Fyd-eang yn bartneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'n cefnogi buddsoddiad yng Nghymru, gan ddatblygu mentrau cydweithredol drwy ymchwilio i'r farchnad, casglu gwybodaeth, ymweliadau â Chymru a theithiau allan o Gymru sydd wedi'u targedu, a chynnydd yn y gweithgareddau hyrwyddo drwy gamau fel datblygu'r brand 'Study in Wales' newydd mewn marchnadoedd allweddol.

<u>Amcanion</u>

- Darparu neges gyson ynghylch ansawdd ac amrywiaeth yr hyn a gynigir gan addysg uwch yng Nghymru o ran ymchwil, sgiliau, cyfnewid gwybodaeth, a phrofiad myfyrwyr gyda'r bwriad o gynyddu ymhellach y buddsoddiad o dramor yng Nghymru;
- Hwyluso partneriaethau buddiol ar y cyd â sectorau allweddol yng Nghymru i ddatblygu ymhellach y cysylltiadau rhyngwladol a denu buddsoddiad a thwristiaid i Gymru;
- Darparu rhagor o gymorth i sefydliadau yn eu gweithgareddau rhyngwladol presennol i gyfleu darlun mwy cydlynol o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig;
- Datblygu mentrau newydd a all gyfrannu at dwf cyfraniad cyffredinol y sector i economi Cymru, yn benodol ym meysydd ymchwil ar y cyd, arloesedd a recriwtio myfyrwyr; a
- Gweithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol drwy rannu adnoddau, cydweithio ar deithiau i Gymru a threfnu teithiau allan o Gymru ar y cyd.

Y marchnadoedd targed a nodwyd gan Cymru Fyd-eang yw UDA a Fietnam.

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – YMCHWILIAD I WERTHU CYMRU I'R BYD**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i brifysgolion fynd i gynhadledd yr Association of National Educators (NAFSA) a gynhelir bob blwyddyn yn UDA i hybu'r cyfleoedd i fyfyrwyr o America astudio yng Nghymru. Bob blwyddyn, mae Cynhadledd Flynyddol NAFSA yn dwyn ynghyd rhwng 9,000 a 14,000 o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol y diwydiant ym maes addysg rhyngwladol am bum diwrnod o rwydweithio, gweithdai a sesiynau addysgol. Mae'r digwyddiad yn siop-un-stop ar gyfer busnes rhwng gwledydd ym maes addysg uwch ac ymchwil ledled y byd. Hwn yw'r un digwyddiad addysg uwch rhyngwladol mwyaf yn y byd.

Yn ogystal â hyn mae swyddogion wedi hwyluso'r gwaith o wahodd Llysgennad Fietnam i Gymru. Cyfarfu â'r Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL) a swyddogion Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn deall yn well ofynion sector addysg uwch Fietnam. Mae swyddogion yn gweithio tuag at gynnal taith fasnach i Fietnam yn ystod yr hydref, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o brifysgolion yng Nghymru.

Mae swyddogion yn ein swyddfeydd tramor hefyd yn hybu 'Study in Wales' mewn marchnadoedd targed drwy borth ar-lein, cyhoeddiadau hyrwyddo a chynadleddau addysg rhyngwladol allweddol. Mae swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a cholegau i rannu adnoddau a deunyddiau i hybu Cymru fel gwlad ddeniadol ac ysgogol i astudio a byw ynddi, ac i ymweld â hi.

Ar y cyd, drwy Golegau a Phrifysgolion, ac yn unigol, mae sefydliadau yn gwneud gwaith eu hunain i hyrwyddo'r cyfleoedd i astudio a byw yng Nghymru, ac i ymweld â hi, drwy gampysau a swyddfeydd tramor, cysylltiadau â phartneriaid rhyngwladol, y defnydd o asiantau tramor a gwefannau fel Study in Wales a gwefannau masnachol fel Student World Online.

Mae dogfen bolisi Llywodraeth Cymru "Tegwch o ran Symudiad Pobl" a gyhoeddwyd ym mis Medi yn cynnwys trafodaeth o oblygiadau Brexit a pholisi mudo Llywodraeth y DU ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn amlygu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch yr agwedd tuag at fudo yn y dyfodol i Gymru. At hynny, mae rhanddeiliaid yn y sector addysg uwch yng Nghymru wedi codi pryderon am yr effaith andwyol y gallai'r naratif ynghylch safbwyntiau Llywodraeth y DU ar fudo ac agweddau tuag at fyfyrwyr tramor ei chael ar eu canfyddiadau am y DU a Chymru fel cyrchfan bosibl ar gyfer astudio.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod caniatáu i fyfyrwyr ac ymchwilwyr symud yn rhydd ar draws Ewrop er budd gorau Cymru a'r DU gyfan, ac mae wedi datgan ei barn yn glir na ddylai myfyrwyr gael eu cyfrif yn y targedau mudo net. Mae "Tegwch o ran Symudiad Pobl" hefyd yn nodi'n glir ei bod yn allweddol nad yw polisi Llywodraeth y DU, a'r negeseuon y mae'n eu cyfleu, yn tanseilio'n sylweddol allu prifysgolion i ddenu myfyrwyr rhyngwladol, a bod y sefyllfa'n deg ledled y DU.

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – YMCHWILIAD I WERTHU CYMRU I'R BYD**

**Sut y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ddenu digwyddiadau rhyngwladol mawr i Gymru**

Ym mis Mehefin 2017, yng Nghaerdydd, cynhaliodd Cymru un o'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf a'r uchaf ei fri yn y byd. Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA oedd penllanw trawiadol pedwar diwrnod o ddathlu pêl-droed yn ein prifddinas. Roedd llygaid y byd arnom ac o ganlyniad i ymdrech ar y cyd gan 'Dîm Cymru' rhoddwyd profiad cofiadwy i'r timau, y cefnogwyr a phawb a ymwelodd â Chymru ar gyfer y digwyddiad; cafwyd canmoliaeth gan UEFA ein bod wedi cyflawni cyfres o ddigwyddiadau pêl-droed rhagorol, arbennig a phroffesiynol.

Hefyd ym mis Mehefin 2017, cynhaliodd Criced Morgannwg gyfres o gemau llwyddiannus Tlws Pencampwyr ICC. Parhaodd llwyddiant chwedlonol yr haf ym maes chwaraeon gyda Chlwb Golff Brenhinol Porthcawl yn cynnal y Bencampwriaeth Agored i Olffwyr Hŷn am yr ail waith.

Rydym hefyd yn cefnogi portffolio ffyniannus o ddigwyddiadau celf a diwylliannol brodorol. Mae'r ystod eang o ddigwyddiadau yn cynnig amrywiaeth gyfoethog o brofiadau diwylliannol. Maent yn cynnwys:

- Gŵyl Gomedi Machynlleth;
- Gŵyl y Gelli Gandryll;
- Gŵyl Gregynog;
- Gŵyl y Dyn Gwyrdd;
- Gwobr Iris;
- Wythnos Bysgod Sir Benfro; a
- Dathliad Roald Dahl yn 2016 – Dinas yr Annisgwyl.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig i gynulleidfaoedd, yma ac yn rhyngwladol, brofiadau unigryw o Gymru fel cenedl sy'n ddilys, yn greadigol ac yn fyw.

Cyflawnwyd hyn oll gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru ac mae'n dystiolaeth, ers lansio ein strategaeth digwyddiadau mawr yn 2010, ein bod wedi cymryd camau mawr i ddatblygu safle Cymru yn y diwydiant digwyddiadau byd-eang.

Gan weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru ac yn y DU, rydym wedi datblygu perthynas gref ac effeithiol gyda pherchnogion digwyddiadau rhyngwladol a'r gymuned digwyddiadau rhyngwladol ehangach, gan ennill eu parch, ffydd a hyder yng ngallu Cymru i gynnal digwyddiadau. Heb amheuaeth, mewn cyfnod gymharol fyr, mae Cymru wedi dod yn rhan bwysig o farchnad fyd-eang hynod gystadleuol.

Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull newydd o ddenu prif ddigwyddiadau busnes i Gymru; gan arddangos Cymru yn gyrchfan ar lwyfan rhyngwladol. Bydd hyn yn elwa i'r eithaf ar y potensial sylweddol a nodwyd i ddenu digwyddiadau a chynadleddau cymdeithasau rhyngwladol mawr i Gymru. Y prif nod yw denu cynadleddau a chyfarfodydd cymdeithasau rhyngwladol sy'n gysylltiedig â sectorau diwydiannau allweddol a rhanbarthau

twf sy'n cael eu targedu ar gyfer mewnfuddsoddi a datblygiad economaidd ledled Cymru, yn ogystal â phynciau rhagoriaeth academaidd, gwyddonol neu feddygol.

Rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac rydym yn ymrwymedig i adeiladu ar ein llwyddiant diweddar.  Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith o gysylltiadau sy'n cynrychioli'r sbectrwm cyfan o'r diwydiant digwyddiadau byd-eang i nodi cyfleoedd newydd i gynnal digwyddiadau.

**Sicrhau'r cymorth mwyaf gan yr UE ac effaith Brexit**

Effaith Brexit

Ar hyn o bryd mae gan yr UE nifer o Gytundebau Masnach Rydd gydag economïau mawr y byd ac mae'r rhain yn debygol o gynyddu'n raddol. Mae'r rhain wedi bod o fudd i gwmnïau o Gymru o ran gwneud eu costau yn fwy cystadleuol.

Ers canlyniad refferendwm yr UE rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau i ddiogelu swyddi a rhoi sefydlogrwydd i fusnesau yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu ymgyrchoedd newydd i hybu mewnfuddsoddiad a chyflwyno ffyrdd newydd o hybu cystadleurwydd cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y goblygiadau ar yr economi gyfan gan gynnwys yr economi ymwelwyr. Y broblem allweddol sy'n ymddangos yw'r effaith bosibl ar y cyflenwad o lafur. Mae ein Papur Gwyn, *Diogelu Dyfodol Cymru*, yn amlygu'r cyfraniad cadarnhaol y mae dinasyddion yr UE yn ei wneud i fywyd bob dydd yng Nghymru gan fod cyfran sylweddol o wladolion yr UE yn gweithio yn ein diwydiant twristiaeth sy'n ffynnu a hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'n diwydiannau creadigol ac i fywyd diwylliannol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae gwaith yn parhau ar yr hyn y bydd Brexit yn ei olygu i berthynas y DU â'r UE. Fodd bynnag, yn y tymor byr i ganolig gellir ystyried Brexit yn gadarnhaol o ran twristiaeth ddomestig a rhyngwladol oherwydd bod sterling wedi gwanhau. Mae Croeso Cymru yn gweithio'n galed i fanteisio ar hyn. Mae Croeso Cymru wedi cynyddu'r swm y mae'n ei wario ar farchnata yn rhyngwladol. Mae wedi manteisio ar yr hwb i'r gyllideb i roi mwy o bwyslais ar ei raglen marchnata rhyngwladol mewn meysydd allweddol dramor gan gynnwys yr Almaen ac UDA, a chyflawni rhaglenni marchnata aml-gyfrwng gan gynnwys hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus/cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol ac uniongyrchol.

Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i roi eglurhad i fusnesau Cymru ar frys ac rydym yn mynnu nad yw'n anwybyddu anghenion busnesau, gweithwyr a buddsoddwyr posibl wrth i drafodaethau Brexit fynd rhagddynt.

Cymorth gan yr UE

Mae Cymru wedi elwa'n fawr o fod yn rhan o'r UE, gan gynnwys tua £370 miliwn y flwyddyn gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r Cronfeydd Buddsoddi ar gyfer datblygiad economaidd rhanbarthol. Drwy gynlluniau fel Campws Arloesedd Bae Abertawe, KESS (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth), Cronfa Fusnes Cymru, Prentisiaethau a Hyfforddiaethau, mae'r cyllid yn helpu i hybu busnes ac ymchwil ac arloesedd ac mae'n cynorthwyo miloedd o bobl i gynyddu eu sgiliau a chael gwaith. O ran masnach, mae cyllid yr UE yn helpu i gefnogi rhaglenni cymorth allforio Llywodraeth Cymru. Gall cwmnïau o Gymru dderbyn y cyllid hwn i ddatblygu eu galluoedd allforio.

Rydym yn parhau i ddarparu rhaglenni cyllid yr UE ar gyfer 2014–2020, sy'n cynnwys cymorth i dwristiaeth ac allforion. Er enghraifft, rydym wedi sicrhau pecyn cyllid gan yr UE ar gyfer twristiaeth sydd â chyfanswm gwerth potensial o £85 miliwn rhwng 2014 a 2020 – y buddsoddiad unigol mwyaf gan yr UE yn y sector. Bydd y cyllid 'Cyrchfannau Denu Twristiaeth', a gefnogir gan £27.7 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn creu 13 o gyrchfannau hanfodol i sbarduno diddordeb yng Nghymru fel cyrchfan wyliau ar gyfer ymwelwyr newydd a rhai sy'n ymweld dro ar ôl tro.

Mae cronfeydd yr UE hefyd yn cefnogi nifer o gynlluniau i hybu sgiliau pobl ac, wrth wneud hynny, yn helpu i wneud Cymru yn wlad fwy deniadol i wneud busnes ynddi a chynyddu mewnfuddsoddiad. Mae'r cynlluniau Prentisiaethau a Hyfforddiaethau a ariennir gan yr UE, yn benodol, yn sail i nifer o ymrwymiadau Symud Cymru Ymlaen, gan gynnwys yr ymrwymiad i ddarparu 100,000 o brentisiaethau ac ail-lunio cymorth cyflogadwyedd.

Caiff yr holl fuddsoddiadau cyllid gan yr UE a wneir cyn i'r DU adael yr UE eu gwarantu gan Drysorlys y DU.

Rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU am gyllid llawn yn lle cyllid yr UE ar ôl Brexit - ar lefel gyfwerth neu fwy na'r hyn a dderbynnir yn bresennol - er mwyn i ni allu parhau i wneud y mathau o fuddsoddiadau ledled Cymru a fydd yn cefnogi twf a swyddi ac yn ein helpu i werthu Cymru i'r byd.

Rydym hefyd wedi galw ar y DU i barhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE fel Horizon 2020 a'r rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd y tu hwnt i 2020, o ystyried y budd economaidd a chymdeithasol a'r partneriaethau pwysig y maent yn helpu i'w creu ar gyfer Cymru.

Cymorth Gwladwriaethol

Rydym hefyd yn annog Llywodraeth y DU i nodi'r fframwaith Cymorth Gwladwriaethol y gellir ei ddefnyddio i gefnogi busnesau ar ôl Brexit. Dan y trefniadau presennol, mae'r rhaglen Ardaloedd a Gynorthwyir yn nodwedd unigryw i Gymru. Mae'r rhain yn lleoliadau daearyddol lle gall y llywodraeth gynnig cymorth ariannol ychwanegol, fel arfer i fusnesau, dan reolau Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Er enghraifft, mae rhaglen ardal y Gorllewin a'r Cymoedd wedi'i neilltuo'n ardal 'A', felly gallai cwmni sy'n dewis lleoli yma dderbyn y lefel uchaf o gymorth ariannol. Heb amheuaeth, mae hyn yn cryfhau'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig ac mae wedi profi i fod yn atyniad

i nifer o fuddsoddwyr.

Yn unol ag egwyddorion y system haenog bresennol, ni ddylai'r fframwaith newydd ar ôl Brexit fod yn un ateb i bawb, a dylai adlewyrchu angen lleol ledled y DU.

**Pa wersi y gall Cymru eu dysgu gan wledydd sy'n debyg o ran maint**

Mae datblygu technolegau digidol wedi gweddnewid y tirlun marchnata, gan alluogi gwlad fach a chreadigol fel Cymru i ddiffinio ei hun ar lwyfan y byd – gan dyfu ein proffil a'n perfformiad fel gwlad i fuddsoddi ynddi, gwneud busnes, astudio a byw ynddi, ac i ymweld â hi. Yn rhan o'r gwaith a wnaed i ddatblygu brand newydd ar gyfer Cymru fel cyrchfan, ac wrth inni symud bellach tuag at fuddsoddi yn y seilwaith digidol arweiniol yn y farchnad sy'n ofynnol fel sail i'r brand (drwy'r prosiect newydd 'Porth Digidol Cymru'), adolygodd Llywodraeth Cymru nifer o frandiau a modelau diddorol gwahanol wledydd.

Roedd hyn yn cynnwys adolygu brandiau cyrchfan o wledydd neu ranbarthau tebyg o ran maint, rhai eraill ag ymgyrchoedd twristiaeth nodedig a/neu wefannau gwledydd atyniadol. Roeddent yn amrywio o wledydd fel yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Ia, Sweden, Norwy, Denmarc a Slofenia ymhlith eraill.

Gwers allweddol a ddysgwyd oedd bod brandiau cyrchfan effeithiol, yn ddieithriad, yn gwneud y pethau canlynol yn dda drwy eu brand a'u hymgyrchoedd:

- codi eu statws fel cenedl;
- synnu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd;
- newid canfyddiadau;
- gwneud pethau da; a
- dangos beth sy'n eu gwneud yn unigryw, a dangos heb unrhyw amheuaeth pwy ydynt

Mae'r pum ffactor hyn bellach yn ffurfio conglfeini brand newydd Cymru ac fe'u defnyddir yn rheolaidd fel rhestr wirio ddefnyddiol ar gyfer pob prosiect, menter neu ymgyrch a weithredir o dan ddull y brand.

Mae'r berthynas yr ydym yn ei meithrin fel gwlad a rhanbarth yn cyfrannu at y modd yr ydym yn dysgu ac yn dylanwadu. Mae ymgysylltu'n uniongyrchol a thrwy gymryd rhan mewn sefydliadau fel y Conference for Peripheral Maritime Regions (CPMR) yn rhoi digon o gyfle i rannu arferion gorau a datblygu prosiectau cydweithredol.

Mae'r rhan fwyaf o lywodraethau yn cynnig math o gymorth buddsoddi allforio a/neu fewnfuddsoddi i gwmnïau. Mae gan gymorth a ddarperir gan lywodraethau amcanion tebyg iawn ond gellir eu cyflawni mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithgareddau i annog cwmnïau i allforio;

- ymweliadau â marchnadoedd;
- ymyraethau i helpu cwmnïau i ddatblygu eu gallu i allforio;
- pecynnau ariannol a/neu becynnau cymorth mwy meddal ar gyfer buddsoddwyr yng Nghymru; ac
- ôl-ofal wedi'i neilltuo ar gyfer buddsoddwyr.

Mae Cymru hefyd wedi achub ar y cyfleoedd a gynigir drwy fod yn genedl fach, fwy dynamig, a thrwy arwain fel y gall cenhedloedd eraill ei dilyn.

Er enghraifft, yn 2008, daeth Cymru y genedl masnach deg gyntaf. Fe'i dilynwyd gan wledydd eraill, fel yr Alban, a gafodd gyfle i ddysgu o'n hesiampl ni.

Rydym hefyd wedi datblygu polisïau a rhaglenni arloesol eraill. Ers 2006, mae ein rhaglen Cymru o Blaid Affrica wedi cefnogi ac annog pobl ledled Cymru i fod â swyddogaeth weithredol mewn datblygiad rhyngwladol. Rydym wedi ariannu mwy na 530 o brosiectau mewn 25 o wledydd yn Affrica.

Mae ein pwyslais ar Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig wedi ei atgyfnerthu hefyd drwy basio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015. Mae hyn yn helpu i sicrhau, wrth inni ddatblygu Cymru ffyniannus, ein bod yn ystyried effaith fyd-eang ein penderfyniadau a'n gweithredoedd. Mae cynaliadwyedd wrth wraidd ein gwaith datblygu polisi ac mae hon yn wers y gallwn ei dysgu i eraill.

**PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU**
**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – YMCHWILIAD I WERTHU CYMRU I'R BYD**

**Atodiad A**

| Ystad Dramor – Costau Gweithredu Blynyddol (£) | | |
|---|---|---|
| **Swyddfa** | **Cytundeb** | **2016-2017** |
| **Atlanta** | Wedi'i chyd-leoli yn swyddfa Conswl Prydain, Atlanta | 9000.00 |
| **Bangalore** | Wedi'i chyd-leoli yn swyddfa'r Dirprwy Uchel Gomisiynydd | 9000.00 |
| **Beijing** | Prydles uniongyrchol Llywodraeth Cymru | 17330.76 |
| **Brwsel** | Prydles uniongyrchol Llywodraeth Cymru | 317105.00 |
| **Chicago** | Wedi'i chyd-leoli yn swyddfa Conswl Prydai, Chicago | 9000.00 |
| **Chongqing** | Prydles uniongyrchol Llywodraeth Cymru | 36790.17 |
| **Dubai** | Wedi'i chyd-leoli yn Llysgenhadaeth Prydain, Dubai | 18000.00 |
| **Dulyn** | Wedi'i chyd-leoli yn Llysgenhadaeth Prydain, Dulyn | 9765.33 |
| **Mumbai** | Wedi'i chyd-leoli yn swyddfa Conswl Prydain, Mumbai – ers mis Ionawr 2017 | 38133.36 |
| **Delhi Newydd** | Wedi'i chyd-leoli yn Uwch Gomisiwn Prydain | 9000.00 |
| **Efrog Newydd** | Wedi'i chyd-leoli yn swyddfa Conswl Prydain, Efrog Newydd | 18000.00 |
| **San Francisco** | Wedi'i chyd-leoli yn swyddfa Conswl Prydain, San Francisco | 9000.00 |
| **Shanghai** | Wedi'i lleoli yn y Ganolfan Brydeinig (gyda phartneriaid Prydeinig eraill fel y British Council a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad) | 17464.74 |
| **Tokyo** | Wedi'i chyd-leoli yn Llysgenhadaeth Prydain, Tokyo – ers mis Ebrill 2016 | 5874.54 |
| **Washington** | Wedi'i chyd-leoli yn Llysgenhadaeth Prydain, Washington | 27000.00 |
| | **Cyfanswm** | **£550,463.90** |

**Atodiad B**

## Swyddfeydd tramor – Staffio

| Lleoliad | Nifer y Staff (FTE) | Manylion |
|---|---|---|
| | | |
| **Ewrop** | **9** | |
| Brwsel | Polisi'r UE | 1x Uwch Swyddog Gwasanaeth Sifil 1 |
| | | 3x Band Gweithredol 2 |
| | | 3x Band Gweithredol 2 |
| | | |
| | Masnach a Buddsoddi | 1x Band Gweithredol 2 |
| | | 1x Band Rheoli 1 |
| **Tsieina** | **5** | |
| Beijing | | 1x Band Rheoli 1 |
| Chongqing | | 1x Band Gweithredol 2 |
| | | 2x Band Gweithredol 1 |
| Shanghai | | 1x Band Rheoli 1 |
| **Iwerddon** | **1** | |
| Dulyn | | 1x Band Gweithredol 2 |
| **India** | **4** | |
| Bangalore | | 1x Band Rheoli 1 |
| Mumbai | | 1x Band Gweithredol 2 |
| | | 1x Band Rheoli 1 |
| Delhi Newydd | | 1x Band Rheoli 1 |
| **Japan** | **3.5** | |
| Tokyo | | 1x Band Gweithredol 2 |
| | | 2x Band Rheoli 1 |
| | | 1x Staff Asiantaeth (Rhan-amser) |
| **Yr Emiraethau Arabaidd Unedig** | **2** | |
| Dubai | | 1x Band Gweithredol 2 |
| | | 1x Band Rheoli 1 |
| **UDA** | **8** | |
| Atlanta | | 1x Band Rheoli 1 |
| Chicago | | 1x Band Rheoli 1 |
| Efrog Newydd | | 2x Band Rheoli 1 |
| San Francisco | | 1x Band Rheoli 1 |
| Washington | | 1x Uwch Swyddog Gwasanaeth Sifil 1 |
| | | 1x Band Gweithredol 2 |
| | | 1x Band Rheoli 2 |
| **CYFANSWM** | **32.5** | |

**Diweddariad Llywodraeth Cymru i'w hymateb i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i Dwristiaeth ym mis Tachwedd 2014**

**Cyflwyniad**
Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r swyddi a'r gwariant sy'n cael ei gynhyrchu. Mae adroddiad Deloitte 2013, *Tourism: Jobs and Growth* yn dangos bod twristiaeth yn cyfrannu £3.1 miliwn, sef tua 5.4% o'r Gwerth Ychwanegol Gros, yn uniongyrchol i economi Cymru.

Amcangyfrifir bod yr economi ymwelwyr yng Nghymru yn cyfrannu llawer yn fwy, cyfwerth â 13.9 y cant o werth ychwanegol gros Cymru, wrth ystyried effeithiau anuniongyrchol gwariant busnes twristiaeth. Mae ystadegau'r sector sydd gan Lywodraeth Cymru yn dangos y cyflogwyd rhyw 132,400 o bobl yn anuniongyrchol ym maes twristiaeth yng Nghymru yn 2015, sy'n gynnydd o 34 y cant ers 2006. Mae cyflogaeth ym maes twristiaeth yng Nghymru wedi tyfu ar gyfradd gyflymach na thwristiaeth yn y DU gyfan ers 2006.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i ddatblygu'r economi ymwelwyr drwy hyrwyddo Cymru fel cyrchfan o ansawdd uchel, ymestyn y tymor twristiaeth, gwella seilwaith a helpu i fuddsoddi mewn hyfforddiant er mwyn cefnogi cynnyrch o ansawdd a gwella profiad yr ymwelwyr.

Mae teithiau dros nos gan breswylwyr Prydain yn rhan allweddol o economi ymwelwyr Cymru, ac yn atebol am dros 90% o deithiau ac 80% o wariant gan ymwelwyr sy'n aros yng Nghymru. Cafwyd cynnydd cadarn yn nifer y teithiau a swm y gwariant o farchnad ddomestig Prydain rhwng 2012 a 20015, a gwelwyd twf yn nhermau real o ran enillion a chynnydd yng nghyfran Cymru o'r farchnad.

O ran ymwelwyr tramor sy'n dod i Gymru, mae ffigurau Arolwg Teithwyr Rhyngwladol yr ONS yn dangos twf parhaus cadarn yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru ac yn gwario yno. Yn 2016, cafwyd dros un filiwn o ymweliadau rhyngwladol a'r gwariant uchaf erioed o £444 miliwn. Hon oedd y bedwaredd flwyddyn yn olynol o dwf, a pharhaodd hyn yn chwarter cyntaf 2017.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni yn erbyn y targedau a'r amcanion yn y strategaeth dwristiaeth a chynllun gweithredu cysylltiedig y fframwaith.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar waith Grŵp Cynghori ar Frand Ashton i ddatblygu brand twristiaeth cydlynol a chadarn i Gymru. (Tudalen 19)

**Ymateb: Derbyn.**

Fel y dywedwyd yn ystod tystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru, mae'r prif egwyddorion brandio a osodwyd yn y gwaith hwn - ynghyd â'r dull gweithredu cyffredinol o adael i'r cynnyrch arwain y brand - eisoes yn cael ei ddilyn drwy ymgyrchoedd marchnata a gweithgareddau eraill ym maes Twristiaeth a Marchnata.

**Diweddariad:**

Datblygwyd brand cyrchfan newydd i Gymru ac fe'i cyflwynwyd tua dechrau 2016 trwy'r ymgyrch Blwyddyn Antur. Roedd nod deublyg i'r brand: creu dull mwy unedig o hyrwyddo Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol; a datblygu ffordd newydd hyderus o feddwl ymhlith pobl Cymru – meithrin crynswth critigol sy'n cyfrannu at ganfyddiadau cadarnhaol o'n gwlad. Cyflawnwyd nifer o ymgyrchoedd eisoes dan y dull newydd, gan gynnwys twristiaeth i fasnachu a buddsoddi, a bwyd a diod ac iechyd. Mae hyn yn gam mawr ymlaen yn y modd yr ydym yn hyrwyddo Cymru i'n marchnadoedd.

**Ar gyfer yr A-Y**

Mae'r strategaeth y tu ôl i'r brand yn gymhellol ac yn hyderus. Gellir crynhoi'r dull craidd fel un sy'n gynhenid Gymreig â rhagolwg byd-eang. Yn greiddiol iddi mae hunaniaeth weledol gadarn, gan gynnwys cynrychiolaeth gyfoes a lleihaol o eicon cyfarwydd y ddraig sy'n ailsefydlu'r cysylltiad â'r faner genedlaethol. Conglfaen arall o'r hunaniaeth weledol yw'r ffurfdeip pwrpasol, Cymru Wales Sans, sydd wedi'i ysbrydoli gan dreftadaeth argraffyddol Cymru ac sy'n ymgorffori deugraffau sy'n unigryw i'r iaith Gymraeg, gan greu 'glud' sy'n tynnu ynghyd y gwahanol elfennau o weithgarwch.

Nod y brand yw darparu ysbrydoliaeth i ddatblygu profiadau twristiaeth newydd yng Nghymru, i helpu i ddatblygu crynswth critigol o brosiectau o'r radd flaenaf sy'n cyfrannu at ganfyddiadau cyffrous newydd o Gymru fel cenedl greadigol a chyfoes.

Cafwyd cefnogaeth a brwdfrydedd sylweddol i'r brand newydd eisoes, yn fewnol ar draws y Llywodraeth ac yn allanol ymhlith rhanddeiliaid, diwydiant, ffurfwyr barn a defnyddwyr. Sicrhawyd hyn yn sgil ei naratif syml ond diddorol a'r hunaniaeth weledol, ond hefyd yn sgil canlyniadau cynnar yr ymgyrch sy'n dangos bod y dull newydd yn gweithio.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru wella cydgysylltu rhwng adrannau sy’n cyfrannu at apêl twristiaeth Cymru – megis diwylliant a threftadaeth – er mwyn atgyfnerthu brand twristiaeth Cymru a’r hyn a gynigir gan y diwydiant. (Tudalen 19)

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hyn yn cael ei gryfhau gan fod Cadw a Diwylliant bellach dan yr un portffolio â thwristiaeth.  Bydd ailstrwythuro o fewn yr adran hefyd yn helpu gyda'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd i greu perthynas waith llawer agosach rhwng pawb sy’n gweithio yn y sectorau diwylliant a threftadaeth.

**Diweddariad:**

Mae brand newydd Cymru yn gam mawr ymlaen yn y ffordd yr ydym yn hyrwyddo Cymru mewn modd cydlynol ac unedig i’n marchnadoedd, gan ddarparu llwyfan cadarn ar gyfer gwaith ar draws adrannau.

Datblygwyd y blynyddoedd thematig ar gyfer twristiaeth yn 2016 er mwyn manteisio ar y meysydd allweddol sy’n cyfrannu at apêl twristiaeth Cymru. Cafodd pob thema ei dewis yn strategol i hyrwyddo cryfderau sefydledig neu ddatblygol y cynnig twristiaeth sydd gan Gymru, ac fel canolbwynt i waith agosach ar draws adrannau a datblygiad cynhyrchion newydd.

Dewiswyd Blwyddyn Chwedlau 2017, er enghraifft, i annog gwell cydlyniad â Cadw, ac mae themâu ymgyrchoedd cysylltiedig yn ystod y flwyddyn, megis Chwaraeon Chwedlonol, Gwyliau Chwedlonol, a Bwyd a Diod Chwedlonol, wedi sicrhau pwyslais ar feysydd allweddol eraill sy’n cyfrannu at apêl twristiaeth Cymru.

Wrth baratoi ar gyfer Blwyddyn y Môr 2018, mae swyddogion yn ymgysylltu’n ehangach ar draws adrannau Llywodraeth Cymru sy’n ymwneud â chefnogi’r amgylchedd (gan gynnwys yr amgylchedd morol), gweithgareddau adfywio a’r economi wledig i sicrhau dull mwy cydlynol o gyflawni twristiaeth.

**Argymhelliad 3.** Mae angen i Lywodraeth Cymru gyfleu'n glir brif negeseuon brand twristiaeth Cymru y mae'n eu mabwysiadu yn dilyn adolygiad brandio Grŵp Cynghori ar Frand Ashton i fusnesau. Dylai hyn gynnwys gwella gwefan *Brand Cymru.* Rydym hefyd yn argymell bod busnesau twristiaeth yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol yn y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu ei "strategaeth gyflawni fanwl ar gyfer marchnata twristiaeth Cymru". (Tudalen 19)

**Ymateb: Derbyn**

Cynhaliwyd cyfres o sioeau teithiol ar gyfer y diwydiant ym mis Tachwedd 2014, lle rhannwyd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer marchnata Cymru yn 2015, gan adlewyrchu'r prif egwyddorion brandio a sefydlwyd gan yr adolygiad brandio. Mae'r Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth wedi cynnal digwyddiadau yn y rhanbarthau hefyd i gwrdd â busnesau twristiaeth a rhanddeiliaid yn yr ardal, i roi gwybod iddynt am waith y Bwrdd a gweithgareddau'r timau twristiaeth a marchnata, ac i wrando ar unrhyw faterion y maent yn dymuno'u codi'n uniongyrchol gyda'r Bwrdd a'r swyddogion. Byddwn yn diweddaru porthol brand Cymru ar-lein yn ystod 2015.

**Diweddariad:**

Cynhaliwyd cyfres o sioeau teithiol yn 2016, a oedd yn cyflwyno eglurhad cynhwysfawr o ddull y brand newydd. Cynhaliwyd sesiynau ymarferol gyda busnesau twristiaeth i ddangos sut y gallant adlewyrchu'r dull newydd yn eu marchnata eu hunain, a chyfeiriwyd busnesau at ragor o wybodaeth ac arweiniad sydd ar gael ar dudalennau cymorth y Diwydiant Twristiaeth ar busnescymru.llyw.cymru (yn lle porthol brand blaenorol Cymru).

Mae'r offer hyn yn cynnwys fideo brand Cymru newydd, canllawiau ar Ymdeimlad o Le a'i bwysigrwydd i fusnesau wrth gynnig profiad Cymreig unigryw i ymwelwyr, a chyfres o fideos astudiaethau achos arfer gorau. Cyfeirir y diwydiant twristiaeth at flwch post canolog hefyd ar gyfer unrhyw ymholiad sy'n ymwneud â'r brand. Wrth i frand Cymru ddatblygu ac asedau newydd gael eu datblygu, y bwriad yw creu porthol newydd brand Cymru ar-lein a fydd yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau defnyddiol a chanllawiau ar gyfer byd diwydiant. Mae offer marchnata ar gael i fusnesau hefyd, ar busnescymru.llyw.cymru sy'n gysylltiedig â phob un o'r blynyddoedd thema. Maent yn cyfleu yn eglur negeseuon allweddol y blynyddoedd thema y gallan nhw eu cyfleu hefyd drwy eu gweithgarwch marchnata eu hunain.

**Argymhelliad 4.** Dylai Croeso Cymru gynnwys busnesau twristiaeth yn fwy agos yn ei ymgyrchoedd hysbysebu er mwyn iddynt ddeall yn well yr hyn y mae Croeso Cymru yn ceisio ei gyflawni, a gallant gydgysylltu eu gwaith eu hunain yn unol â hynny. (Tudalen 20)

**Ymateb: Derbyn**

Fel y dywedwyd uchod, cynhaliwyd cyfres o sioeau teithiol i'r diwydiant yn ystod mis Tachwedd 2014, gan rannu ein cynlluniau ar gyfer marchnata Cymru yn 2015. Bwriedir cynnal mwy yn 2015 fel rhan o raglen reolaidd o sioeau. Roedd Visit Britain hefyd yn bresennol er mwyn egluro eu gwaith ar gysylltiadau cyhoeddus, a'r cysylltiad â gwaith twristiaeth a marchnata Llywodraeth Cymru.

**Diweddariad:**

Cynhaliwyd cyfres o sioeau teithiol yn 2015 a 2016 ac roedd y rhain yn cynnwys sesiynau briffio ar ymgyrchoedd Croeso Cymru. Yn y sesiynau cafwyd eglurhad o'r hyn y mae'r ymgyrchoedd yn ceisio'i gyflawni ar lefel genedlaethol ac yn cynnwys arweiniad ymarferol ar sut y gall y diwydiant gydlynu ac atgyfnerthu ymgyrchoedd cenedlaethol Croeso Cymru yn eu gwaith eu hunain.

Bu'r blynyddoedd thema a gyflwynwyd yn 2016 yn ddull defnyddiol o alluogi partïon i fabwysiadu dull mwy cydweithredol. Mae Croeso Cymru wedi darparu amrywiaeth o offer defnyddiol ac arweiniad i fyd diwydiant cyn pob blwyddyn thema i roi gwybodaeth fanwl a syniadau am sut i gymryd rhan.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i hyrwyddo'r hyn sy'n unigryw i Gymru fel cyrchfan i dwristiaid, gan gynnwys ei golygfeydd, ei hanes, ei threftadaeth ddiwydiannol a'i hiaith. (Tudalen 22)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol iawn bod ein cefn gwlad, arfordir, diwylliant a hanes yn rhinweddau pwysig a chryf i ddenu ymwelwyr i Gymru. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo a'i farchnata'n effeithiol ar draws sawl elfen o'r ymgyrch farchnata 'Does unman tebyg i Gymru'; ac mae manylion ynghylch sut i ymweld a phrofi nifer o'r asedau unigryw hyn ar wefan Croeso Cymru. Mae mwy o waith yn cael ei wneud i adeiladu ar y gwaith hyrwyddo hwn drwy ymgyrchoedd a gwelliannau i wefan Croeso Cymru yn y dyfodol.

**Diweddariad:**

Nod penodol dull blwyddyn thema Croeso Cymru yw gwneud rhagor i werthu'r hyn sy'n unigryw i Gymru, gan gynnwys ein hasedau cefn gwlad ac arfordirol a diwylliannol. Dewiswyd pob thema (Blwyddyn Antur, Blwyddyn Chwedlau, y Môr a Darganfod) yn strategol i fanteisio ar gryfderau sefydledig neu ddatblygol cynnig twristiaeth Cymru; a'n mantais gystadleuol bosibl ar gyrchfannau eraill. Lluniwyd y strategaeth blwyddyn thema i ddatblygu enw da nodedig i Gymru fel gwlad yn y meysydd allweddol hyn.

Chwaraeodd Blwyddyn Antur 2016 ran allweddol i sicrhau enw da Cymru yn y maes hwn ymhlith rhanddeiliaid y diwydiant, defnyddwyr a phobl sy'n dylanwadu ar y cyfryngau, yn dilyn blynyddoedd o fuddsoddi yn y cynnyrch ac arloesi. Mae Blwyddyn Chwedlau 2017 wedi bod yn gyfle allweddol i Cadw roi pwyslais ar ein hasedau hanesyddol, drwy feithrin thema hynod boblogaidd y ddraig a ddatblygwyd yn eu hymgyrch *Anturiaethau Hanesyddol* yn 2016. Mae ymgyrch *Chwilio am Chwedlau* Cadw yn 2017 yn parhau â thema hynod boblogaidd y ddraig, gyda chymorth profiadau ymgolli yn lleoliadau amrywiol Cadw, sy'n rhoi bywyd i hanes yr henebion i ymwelwyr.

**Ar gyfer yr A-Y**
Bydd Blwyddyn y Môr 2018 yn galluogi Cymru i roi pwyslais cadarn ar ein hasedau arfordirol unigryw. Yn ogystal â hyn, bydd lansio Llwybr Cymru, llwybr twristiaeth newydd â phwyslais rhyngwladol tua diwedd 2017 yn atgyfnerthu ein llwybrau arfordirol ac yn cynnwys pwyslais ar ein cefn gwlad hefyd. (Bydd y teulu newydd hwn o lwybrau yn cynnwys yr A55 – Llwybr Gogledd Cymru, yr A487 – y Llwybr Arfordirol, a'r A470 Llwybr Cambria).

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i annog hyrwyddo asedau treftadaeth ar y cyd, gan gynnwys y rhai y tu allan i'w gofal, ac adeiladu ar enghreifftiau o arfer da. (Tudalen 24)

**Ymateb: Derbyn**

**Diweddariad:**

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae'n gweithio i hyrwyddo safleoedd treftadaeth ledled Cymru – gan gynnwys asedau nad yw Llywodraeth Cymru yn gofalu amdanynt. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae Cadw yn gweithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i annog y rhai hynny sy'n ymweld â'r dreigiau ar eu safleoedd i ymweld â'r arddangosfa dinosoriaid yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

**Drysau Agored**
Mae Cymru yn un o 50 o wledydd sy'n cymryd rhan yn Drysau Agored, a elwir yn rhyngwladol yn Ddiwrnodau Treftadaeth Ewropeaidd.
Y rhaglen hon fydd y dathliad blynyddol mwyaf yn rhad ac am ddim o bensaernïaeth a threftadaeth a gynhelir yng Nghymru a'r DU yn ehangach, a bydd y digwyddiad gwirfoddoli mwyaf yn y sector treftadaeth. Mae'n rhoi mynediad am ddim i aelodau'r cyhoedd i agweddau newydd ar y dreftadaeth adeiledig ac yn denu ymwelwyr i Gymru o wledydd y byd.

Bydd dros 300 o leoliadau mwyaf eiconig ac anarferol Cymru yn cynnig mynediad am ddim, gweithgareddau, teithiau tywys neu ddigwyddiadau arbennig yn ystod mis Medi. Bydd rhai lleoliadau unigryw yn agor eu drysau i'r cyhoedd am y tro cyntaf erioed.

**Lle Hanes**
Bu Cadw yn gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yr Ymddiriedolaeth Archeolegol leol, a Chasgliad y Werin Cymru, ynghyd â chymdeithasau lleol amrywiol ar y prosiect Lle Hanes yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

**Bryn Celli Ddu**
Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Cadw wedi arwain prosiect mewn partneriaeth â Phrifysgol Ganolog Sir Gaerhirfryn, a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion ar brosiect archaeoleg cyhoeddus ym Mryn Celli Ddu ar Ynys Môn.

Ymgysylltodd y prosiect yn 2017 â mwy na 50 o wirfoddolwyr lleol, a channoedd o blant ysgol o'r ardal leol. Yn rhan o'r prosiect, cynhaliwyd Diwrnod Agored adeg hirddydd haf ac ymunodd dros 700 o ymwelwyr yn y dathlu.

Mae'r gwaith yn parhau i ymgysylltu ag amryw o bartneriaid lleol, gan gynnwys Oriel Ynys Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru, ysgolion a cholegau lleol, ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

**Ar gyfer yr A-Y**
Mae'r digwyddiad **Drysau Agored** yn cael ei ariannu a'i drefnu gan wasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Fe'i cynhelir am fis ac mae'n gyfle i bobl yng Nghymru, ac i ymwelwyr, archwilio nodweddion newydd, cudd ac enwog o ddiwylliant a hanes y wlad.

Gall ymwelwyr archwilio pob math o adeiladau a safleoedd rhyfeddol y wlad, gan gynnwys mannau cymdeithasol bywiog Stryd Fawr Abertawe, Synagog Diwygiedig Caerdydd, a hyd yn oed adeilad y Senedd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae dros 1,000 o wahanol ddigwyddiadau ar gael i'w harchwilio i gyd. Bydd cyfle hefyd i ymweld â Ffynnon Thermol Ffynnon Taf, lle honnir bod gan y dŵr briodweddau iachusol, dringo i ben Cloc Tref Tredegar neu ddysgu hobi newydd yn unig Glwb Croquet swyddogol Caerdydd.

Mae ymwelwyr â'r **Lle Hanes** yn ennill gwell dirnadaeth o hanes a threftadaeth eu hardal leol, ac yn ennill gwell ymwybyddiaeth o waith partneriaid y prosiect. Mae'r partneriaid sy'n rhan o'r prosiect yn elwa arno y tu hwnt i wythnos yr Eisteddfod trwy Casgliad y Werin Cymru a datblygu partneriaethau gweithio agosach.

Mae'r sefydliadau cenedlaethol yn cydweithredu i greu lleoliad ar y cyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, trwy gydweithio i gyd-lunio cynnwys a rhaglen gweithgareddau/digwyddiadau wedi'u seilio ar thema ganolog neu naratif sy'n canolbwyntio ar hanes a threftadaeth ardal gyfagos yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Bryn Celli Ddu**
Ym mis Ebrill cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod Partneriaeth Strategol wedi'i llunio ar gyfer cydweithredu llawer gwell, gan gynnwys hyrwyddo, rhwng ein sefydliadau treftadaeth arweiniol, h.y. rhwng Cadw, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Mae Cadw hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn safleoedd nad ydynt yn rhai Cadw – er enghraifft, ariannodd waith sefydlogi brys yng Nghastell Rhuthun. Mae dyfodol y Castell 750 mlwydd oed, sef, gellid dadlau, y castell canoloesol mwyaf sylweddol yng Nghymru i beidio â chael ei chadw, yn edrych yn well erbyn hyn.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i sicrhau effaith fwyaf posibl digwyddiadau mawr ar dwristiaeth a sicrhau bod llwyddiant Cymru i gynnal digwyddiadau mawr yn bwydo i mewn i frand twristiaeth cryf i Gymru. (Tudalen 27)

**Ymateb: Derbyn**

Er ein bod yn derbyn y gellid gwneud mwy, rydym yn gwrthod unrhyw awgrym nad yw Llywodraeth Cymru yn ymdrechu eisoes i fanteisio i'r eithaf ar ddigwyddiadau mawr. Mae cynnal digwyddiadau mawr ym mhob cwr o Gymru yn gynyddol bwysig ar gyfer codi proffil Cymru ar draws y byd, a denu pobl i ymweld ac aros yma.

Fel y dywedwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r pwyllgor, mae hyn yn cael ei ddatblygu'n gryf drwy Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru, sy'n dod dan adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Amcangyfrifir y bydd y rhaglen o ddigwyddiadau gyda chymorth yr Uned Digwyddiadau Mawr yn 2014 yn denu tua 280,000 o ymwelwyr i Gymru, gan gynhyrchu effaith economaidd uniongyrchol gwerth £50 miliwn. Yn 2014 cefnogwyd amrywiol ddigwyddiadau chwaraeon a diwylliannol, gan gynnwys Gŵyl Gomedi Machynlleth, Wythnos Bysgod Sir Benfro, Pencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn, Pencampwriaeth Athletau IPC, gêm derfynol Super Cup UEFA a Gŵyl Rhif 6.

Mae cynlluniau ar droed eisoes i fanteisio i'r eithaf ar ddigwyddiadau yn y dyfodol, fel Prawf y Lludw a Chwpan Rygbi'r Byd yn 2015; Pencampwriaethau Hanner Marathon y Byd yn 2016; Pencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn yn 2017; a Ras Hwylio Volvo yn 2018.

**Diweddariad:**

Mae cynnal Digwyddiadau Mawr yn cefnogi ein menter i ddatblygu Cymru ffyniannus ac yn cyfrannu'n sylweddol i'r economi dwristiaeth. Yn 2016/17, cefnogwyd 35 o ddigwyddiadau (20 digwyddiad diwylliannol a 15 digwyddiad chwaraeon) ledled Cymru gyfan. Rydym yn amcangyfrif y teithiodd rhyw 348,360 o ymwelwyr i Gymru i fwynhau'r digwyddiadau a gynhaliwyd yma; gan wario £52.7 miliwn ychwanegol a chefnogi dros 1,215 o swyddi.

Yn 2017, 'Blwyddyn Chwedlau', mae Cymru wedi cynnal rhai o'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf o ran maint a'r mwyaf mawreddog yn y byd, gan gynnwys: Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA; Tlws Pencampwyr yr ICC; a'r Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl.

Ym Mlwyddyn y Môr 2018 bydd digwyddiad arall yn cael ei gynnal yma am y tro cyntaf erioed, wrth i Ras Hwylio Volvo 2017/18 aros yng Nghymru, sef un o'r digwyddiadau hwylio mwyaf o ran maint a'r mwyaf mawreddog y byd. Bydd yr arhosiad yng Nghaerdydd yn croesawu timau ar ddiwedd y cam trawsiwerydd o'r daith, sy'n dechrau yn Newport RI yn yr UD.

Mae digwyddiadau eraill sy'n cael eu hystyried ar gyfer y dyfodol yn cynnwys un cam o rasys seiclo y Daith Fawr, amryw Bencampwriaethau Ewropeaidd a'r Byd, a digwyddiadau penodol i fenywod a phobl ifanc. Mae'r rhestr darged yn cynnwys trawstoriad o ddigwyddiadau chwaraeon, cerddorol a diwylliannol, a gwneir pob ymgais i fanteisio i'r eithaf ar effaith dwristiaeth y digwyddiadau hyn.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut mae’n parhau â’r gwaith a wnaed gan y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, yn hyrwyddo Cymru a diwylliant Cymru yn rhyngwladol (h.y. WOMEX 2013), ar ôl iddo gael ei ddiddymu. (Tudalen 28)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod Cymru a'i diwylliant yn parhau i gael eu hyrwyddo'n rhyngwladol.  Bydd cydweithio agosach rhwng y portffolios Diwylliant a'r Diwydiannau Creadigol, Marchnata a Thwristiaeth yn cryfhau hyn.

**Diweddariad:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cynrychiolaeth o Gymru yn WOMEX (lleoliadau amrywiol) a South by South West (SXSW, Austin, TX) bob blwyddyn ers diwedd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, yn ogystal â darparu grant teithio i gefnogi busnesau sy’n dymuno bod yn bresennol yn y digwyddiadau hynny. Yn y ddau achos, rydym wedi gweithio’n agos gyda’r Cyngor Celfyddydau, a defnyddio’r brand Cerdd Cymru i barhau i ddefnyddio hynny.

O ganlyniad i hyn rydym wedi gweld nifer mawr o artistiaid o Gymru yn perfformio yn y digwyddiadau hyn.

Yn ogystal â hyn, rydym yn cefnogi busnesau i fod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiadau rhyngwladol eraill sy’n ymwneud â cherddoriaeth, cyhyd â’u bod yn darparu achos busnes dros wneud hynny. Mae hyn wedi cynnwys Folk Alliance International (Kansas City, MO) a gŵyl Penwythnos NH7 (lleoliadau amrywiol yn India).

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o effaith economaidd y manteision uniongyrchol sy'n deillio o gynnal uwchgynhadledd NATO yng Nghymru, gan gynnwys ei heffaith ar y diwydiant twristiaeth. Dylai'r Llywodraeth gyhoeddi gwerthusiad mwy hirdymor o effaith cynnal yr uwchgynhadledd maes o law, a chadarnhau amserlen ar gyfer gwneud hynny. (Tudalen 29)

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar gostau a manteision NATO Cymru 2014 gan y Prif Weinidog ar 16 Rhagfyr.

**Diweddariad:**

Yn dilyn llwyddiant cynnal uwchgynhadledd NATO ym mis Medi 2014, cydweithiodd Llywodraeth Cymru â phartneriaid i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i gynadleddau a digwyddiadau busnes. Cynhyrchodd ymgyrch etifeddiaeth twristiaeth busnes dros 9,000 o ymwelwyr i wefan y digwyddiadau busnes a chyrhaeddodd y rhaglen cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig a dargedir, #WalesMadeBusiness, gyfanswm o dros 300,000 o bobl.

Ym mis Tachwedd yn dilyn NATO, cynhaliwyd Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r DU 2014 yng Nghymru. Roedd y digwyddiad hwn yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a chafodd sylw mewn print, ar-lein ac ar y radio.

Bydd Cymru yn parhau i ddatblygu ei henw da o ran cynnal prif ddigwyddiadau a chynadleddau, wrth ddatblygu Canolfan Confensiynau Rhyngwladol Cymru a dull traws-sector Llywodraeth Cymru o ddenu digwyddiadau busnes.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o lwyddiant digwyddiadau canmlwyddiant Dylan Thomas, a sicrhau bod y profiad hwn yn dylanwadu ar waith ar ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol, megis canmlwyddiant geni Roald Dahl yn 2016. (Tudalen 30)

**Ymateb: Derbyn**

Bydd adroddiad ar Dylan Thomas 100 yn cael ei gyhoeddi yn gynnar n 2015, ac mae’r gwersi a ddysgwyd o'r canmlwyddiant eisoes yn cael eu defnyddio wrth drefnu digwyddiadau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer pennu 14 Mai yn flynyddol fel Diwrnod Dylan a chynigion i ddathlu canmlwyddiant geni Roald Dahl yn 2016.

**Diweddariad:**

Cafodd adroddiad llawn ar ddigwyddiadau a gweithgareddau canmlwyddiant Dylan Thomas ei gyhoeddi yn 2015. I ddathlu’r canmlwyddiant, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu’r syniad o Ddiwrnod Dylan Thomas blynyddol, sy’n rhan o’r calendr llenyddol erbyn hyn.

Yn dilyn llwyddiant Canmlwyddiant Dylan Thomas, yn 2016, cefnogodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau a gafodd eu cynnal ledled Cymru yn rhan o ddathlu genedigaeth Roald Dahl yng Nghaerdydd - <http://www.roalddahl100.cymru> a chymerwyd rhan uniongyrchol gan oddeutu 300,000 o bobl yn rhaglen weithgaredd Roald Dahl yn ystod 2016.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu ei tharged ar gyfer twf yng ngoleuni perfformiad da'r sector. Os bydd twf yn parhau i ragori ar yr hyn sydd ei angen i gyflawni'r targed, dylid pennu targed newydd a mwy heriol i'r sector. (Tudalen 34)

**Ymateb: Derbyn**

Bydd hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol - byddwn yn ystyried y ffigur twf o 10% eto ar gyfer 2015-16.

**Diweddariad:**

Daeth yr adolygiad interim o'r strategaeth i'r casgliad bod y targed cyffredinol o gyflawni twf real o 10% mewn gwariant ymwelwyr dros nos yn parhau i fod yn berthnasol ac yn realistig o ystyried cyflwr ansicr a heriol y farchnad.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sectorau twristiaeth sydd â’r potensial ar gyfer twf mawr a datblygu strategaethau a thargedau twf penodol ar gyfer y sectorau hyn. (Tudalen 36)

**Ymateb: Derbyn**

Mae hyn eisoes yn cael ei wneud o fewn y strategaeth dwristiaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020' sy'n nodi sectorau twf, sydd yn ei dro yn sylfaen i'r dull gweithredu brand dan arweiniad y cynnyrch.

**Diweddariad:**

Mae ein Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn parhau i dargedu busnesau ag uchelgeisiau o ran twf. Mae ein llwyddiannau diweddar o ran cefnogi’r sector gweithgareddau antur (Surf Snowdonia/Zip World) wedi eu hategu bellach gan bwyslais ar dargedu datblygiad llety o safon.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru symleiddio’r broses i sefydliadau gael arwydd brown a gwyn, yng ngoleuni’r pryderon ynglŷn â biwrocratiaeth a’r gost. (Tudalen 37)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau diwygiedig y gall busnesau twristiaeth fanteisio arnynt mewn perthynas ag arwyddion twristiaeth brown a gwyn. Os caniateir yr arwyddion, mae cymorth hefyd ar gael i gyrraedd at grantiau drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth. Mae'r broses ymgeisio eisoes wedi'i symleiddio i'r lleiaf sy'n ofynnol.

**Diweddariad:**

Mae Croeso Cymru wedi trafod symleiddio’r broses â chydweithwyr Trafnidiaeth. Disgwylir y bydd y canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Hydref 2017 ac maent yn amlinellu camau’r broses yn well, ac yn cynnig un pwynt cyswllt lle gall busnes olrhain cynnydd ei ymholiad neu gais.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd band eang i fusnesau twristiaeth wrth flaenoriaethu’r broses o gyflwyno band eang o dan ei chynlluniau Cyflymu Cymru ac Allwedd Band Eang Cymru. (Tudalen 38)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd defnyddio band eang cyflym iawn i fusnesau twristiaeth. Cyflawnwyd gweithgareddau penodol i dwristiaeth eisoes dan brosiect braenaru. Bydd busnesau twristiaeth yn parhau i gael eu cefnogi drwy gymorth sy'n cydblethu â'r broses o gyflwyno Cyflymu Cymru a'r rhaglen genedlaethol arfaethedig i helpu busnesau i fanteisio i'r eithaf arno.

**Diweddariad:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd defnyddio band eang cyflym iawn i fusnesau twristiaeth. Cyflawnwyd gweithgareddau penodol i dwristiaeth eisoes dan brosiect braenaru. Mae’r gwaith wedi parhau ledled Cymru gyfan trwy gefnogaeth a neilltuwyd i fusnesau twristiaeth yn rhan o raglen ‘Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn’ a oedd yn cael cymorth gan ERDF ac sy’n rhan annatod o gynnig ehangach Buses Cymru.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Ofcom i wella cwmpas band eang a ffonau symudol er mwyn gwella’r hyn y mae twristiaeth Cymru yn ei gynnig. (Tudalen 38)

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r gwaith ar Cyflymu Cymru wedi hen ddechrau gyda'r nod, ynghyd â darpariaeth y sector preifat, o sicrhau y gall 96% o gartrefi a busnesau yng Nghymru dderbyn band eang ffeibr cyflym erbyn 2016. Hefyd mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn darparu cyllid ar gyfer cysylltiadau band eang amgen lle nad oes modd sicrhau cyflymder dros 2Mbps.

Rydym hefyd yn bwriadu cyflawni prosiect newydd i ddod â band eang ffeibr cyflym i ardaloedd nad ydynt yn dod o dan Cyflymu Cymru na phrosiectau'r cwmnïau telathrebu preifat. Rydym eisoes wedi cychwyn ar y broses gaffael ar gyfer cam cyntaf y prosiect dau gam hwn i lenwi bylchau.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant cyfarpar symudol, Ofcom a Llywodraeth y DU i wella signal ffonau symudol ar draws Cymru. Un o'r prif elfennau yw sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar Brosiect Seilwaith Symudol Llywodraeth y DU, buddsoddiad gwerth £150 miliwn, i roi sylw i fannau lle mae'r signal symudol yn wan.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gweithredwyr Ffonau Symudol yn dilyn arwerthiant y sbectrwm 4G. Mae'r drwydded a ddyfarnwyd i Téléfonica O2 yn cynnwys rhwymedigaeth i sicrhau signal i o leiaf 95% o boblogaeth Cymru erbyn diwedd 2017.

**Diweddariad:**

Mae gwaith ar raglen Cyflymu Cymru yn dirwyn i ben, a fydd, pan gaiff ei chyfuno â chyflwyniad masnachol, yn darparu mynediad i fand eang ffeibr cyflym i oddeutu 96% o gartrefi a busnesau yng Nghymru erbyn mis Rhagfyr 2017. Yn ogystal â hynny, mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn darparu cyllid ar gyfer cysylltiadau band eang amgen lle na ellir cyflawni cyflymder band eang o fwy na 2 Mbps.

Rydym hefyd yn bwriadu cyflawni rhaglen ychwanegol o waith i ddod â band eang ffeibr cyflym i ardaloedd nad ydynt wedi’u cwmpasu gan Cyflymu Cymru na phrosiectau'r cwmnïau telathrebu preifat. Rydym eisoes wedi cychwyn ar y broses gaffael ar gyfer y gwaith y cyfeirir ato fel Cyflymu Cymru 2 i ddarparu cysylltedd i’r rhannau o Gymru nad yw’r cynnig masnachol yn eu gwasanaethu hyd yn hyn, nac ychwaith darpariaeth Cyflymu Cymru.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol, Ofcom a Llywodraeth y DU i wella signal ffonau symudol ledled Cymru. Un o'r prif elfennau yw sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar Brosiect Seilwaith Symudol Llywodraeth y DU, buddsoddiad gwerth £150 miliwn, i roi sylw i fannau lle mae'r signal symudol yn wan.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gweithredwyr Ffonau Symudol yn dilyn arwerthiant y sbectrwm 4G. Mae'r drwydded a ddyfarnwyd i Téléfonica O2 yn cynnwys rhwymedigaeth i sicrhau signal i o leiaf 95% o boblogaeth Cymru erbyn diwedd 2017.

**Argymhelliad 16.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i gynnwys y diwydiant twristiaeth yng ngwaith Croeso Cymru. Dylai hyn gynnwys cadarnhau a yw Croeso Cymru yn cyhoeddi digon o wybodaeth am ei weithgarwch (gan gynnwys gweithgarwch yr Uned Digwyddiadau Mawr) er mwyn galluogi'r diwydiant i asesu ei waith a bod yn rhan ohono. (Tudalen 40)

**Ymateb: Derbyn**

Gan dderbyn y byddai modd gwneud mwy bob amser, mae swyddogion twristiaeth yn cysylltu eisoes â'r diwydiant twristiaeth mewn amrywiol ffyrdd: Sioeau Teithiol rheolaidd, Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol newydd o fewn Llywodraeth Cymru, Fforymau Rhanbarthol, e-gylchlythyr Croeso Cymru (bellach â phedwar cylchlythyr rhanbarthol o fis Rhagfyr 2014 ymlaen); cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol; ystadegau twristiaeth ar wefan Llywodraeth Cymru gyda chyhoeddiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed yn unol â'r strategaeth dwristiaeth.

**Diweddariad:**

Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd â Fforymau Rhanbarthol teirgwaith y flwyddyn ac rydym yn cryfhau ymgysylltiad y sector preifat yn y rhain. Bwriad yr Uwchgynhadledd Twristiaeth lwyddiannus, a gynhaliwyd ym mis Mehefin eleni ar y cyd â Chynghrair Twristiaeth Cymru, oedd cryfhau cysylltiadau rhwng pawb ym maes twristiaeth a'r economi ymwelwyr ehangach a llwyddodd i ddod ag arweinwyr o'r diwydiant twristiaeth at ei gilydd.

Mae pob un o'n buddsoddiadau – drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth a'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth yn cael ei gyhoeddi ar-lein.

O ran Digwyddiadau Mawr, rydym yn gweithio'n agos gyda pherchnogion a threfnwyr digwyddiadau i ddatblygu portffolio o eiddo digwyddiadau rhyngwladol ac yn cefnogi digwyddiadau cartref hefyd. Rydym yn parhau i ymrwymo i ddenu rhagor o ddigwyddiadau mawr rhyngwladol i bob cwr o Gymru ac rydym yn cynnal trafodaethau â phartneriaid ar hyn o bryd er mwyn nodi'r cyfleoedd. Rydym wedi ymgysylltu yn rhagweithiol â phartneriaid allweddol yng Nghymru i gael eu barn yn rhan o brosiect 'Sganio'r Gorwel', y pedwar Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol; pob un o'r 22 awdurdod lleol; Cyngor Celfyddydau Cymru; Chwaraeon Cymru; URC/Stadiwm Principality; a Chanolfan Mileniwm Cymru.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru i wella presenoldeb ar-lein Croeso Cymru. Dylai hyn gynnwys gwefan fwy dynamig a rhyngweithiol sy'n haws i'w defnyddio. Dylid hefyd ystyried datblygu apiau a allai helpu twristiaid i gael y mwyaf o'u hymweliad â Chymru. (Tudalen 41)

**Ymateb: Derbyn**

Ail lansiwyd gwefan Croeso Cymru ym mis Mehefin 2013, ac fe welwyd cynnydd yn y sawl sy'n ei ddefnyddio. Y cam nesaf, sy'n digwydd ar hyn o bryd, yw ailddatblygiad o'r bas data i chwilio am gynnyrch twristiaeth sydd eisoes yn gofyn am gydweithio agos gyda'r diwydiant. Fel sy'n digwydd gyda phob gwefan newydd, rydym yn monitro ac yn adolygu'n gyson, gan wneud unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mae'r Rhaglen Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol, sy'n cael ei chyllido gan arian Ewropeaidd, eisoes wedi helpu i ddatblygu 20 ap ffôn symudol ar gyfer y sector twristiaeth.

**Diweddariad:**

Buddsoddwyd yn sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i wneud marchnata digidol yn ganolbwynt i strategaeth Croeso Cymru, drwy fuddsoddi yn croeso.cymru fel llwyfan, ymgyrchoedd digidol, marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol, a chynnwys o safon uchel ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad yn croeso.cymru, y bas data cynnyrch twristiaeth cysylltiedig, yn ogystal â phrosiect mapio mwy diweddar gyda Google Snowdrop wedi chwarae rhan sylweddol yn y cynnydd a welwyd yn y refeniw ychwanegol a ddaeth drwy weithgaredd marchnata Croeso Cymru rhwng 2012 a 2016 – o oddeutu £163 miliwn i dros £300 miliwn yn y blynyddoedd diweddar.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod hefyd yn nifer dilynwyr Croeso Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol i 1 miliwn ac mae gwaith ymchwil cychwynnol yn awgrymu bod hon yn gynulleidfa sydd wedi ymgysylltu'n gryf ac sydd wedi cael ei dylanwadu'n uniongyrchol i ymweld â Chymru o ganlyniad i gyfathrebu cynnwys â nhw, sydd i gyfrif am ryw £30 miliwn o'r gwariant ychwanegol a gynhyrchwyd yn 2016.

Mae'r gwaith ar frandio Cymru hyd yn hyn wedi galluogi i gam mawr ymlaen ddigwydd yn y broses o hyrwyddo Cymru yn fwy effeithiol ac integredig drwy ein hymgyrchoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dechrau ar y cam nesaf erbyn hyn, i droi brand Cymru yn ddull a arweinir yn ddigidol. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiad mewn Porth Digidol newydd i Gymru, seilwaith digidol blaenllaw yn y farchnad a fydd yn sail i frand Cymru a'i hyrwyddo fel cenedl ac fel cyrchfan twristiaeth mewn ffordd fwy cost-effeithiol a dylanwadol. Bydd hyn yn galluogi hyrwyddo Cymru yn fwy integredig fel cyrchfan twristiaeth drwy ein llwyfannau digidol a'r cynnwys twristiaeth cysylltiedig.

Bydd cyflwyno prosiect Llwybr Cymru ar ddiwedd 2017, cyfres o lwybrau

| |
|---|
| twristiaeth sy’n targedu pobl yn rhyngwladol, yn cynnwys datblygu cynnwys gwefan hawdd ei ddefnyddio, dynamig, a rhyngweithiol, yn ogystal ag Ap a fydd yn helpu twristiaid i elwa i’r eithaf o deithiau a phrofiadau twristiaeth lleol a gaiff eu hyrwyddo yn rhan o’r fenter llwybr. |

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio’n agosach gyda’r diwydiant twristiaeth yng Nghymru er mwyn ei hysbysu am y newidiadau sy’n cael eu gwneud i’r strwythur cymorth twristiaeth rhanbarthol, a sicrhau bod y strwythur newydd hwnnw yn llwyddiant. (Tudalen 43)

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol newydd bellach yn ei le ac mae'r swyddogion wedi cael y dasg o drafod gyda'r diwydiant yn eu rhanbarthau i sicrhau bod y newidiadau yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.

Mae rownd gyntaf cronfa ymgysylltu twristiaeth ranbarthol newydd wedi'i chwblhau ac mae rhanddeiliaid rhanbarthol wedi cael arian i barhau i gymryd camau o fewn y cynlluniau rheoli cyrchfannau perthnasol.

Bydd gwahoddiad cyn hir i aelodau ymuno â fforwm rhanbarthol newydd, gyda'r cyfarfodydd cyntaf yn cael eu cynnal ym mis Ionawr/ Chwefror 2015. Bydd y fforwm yn ffordd bwysig o gyfathrebu gyda'r rhanbarthau. Bydd swyddogion hefyd yn cynhyrchu cylchlythyrau rhanbarthol er mwyn cyfathrebu'n well gyda'r rhanddeiliaid rhanbarthol.

**Diweddariad:**

Mae’r pedwar fforwm rhanbarthol wedi eu hen sefydlu erbyn hyn ac mae pob un ohonynt yn cyfarfod teirgwaith y flwyddyn i drafod materion allweddol a chyfleodd ar gyfer y sector. Cawsom enghraifft yn ddiweddar o’r modd y maent yn cael eu defnyddio fel cyrff ymgynghorol allweddol wrth ofyn am adborth i’r cynllun busnes sy’n canolbwyntio ar dwristiaeth a gynigiwyd yn ddiweddar ar gyfer y drafodaeth ar Strategaeth Ddiwydiannol y DU sydd ar y gweill.

Mae’r cyllid sy’n cael ei ddarparu drwy’r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol a’r Gronfa Arloesi Cynnyrch mewn Twristiaeth yn ei drydedd a’i bedwaredd flwyddyn o’u darpariaeth, yn ôl eu trefn. Cymeradwywyd cyfanswm o £3,224,000 ar gyfer datblygu cynnyrch arloesol a darpariaeth twristiaeth lleol yn 2017/2018 a 2018/2019.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i wella gwybodaeth staff Visit Britain am Gymru a'r hyn y mae twristiaeth Cymru yn ei gynnig. (Tudalen 44)

**Ymateb: Derbyn**

Mae gennym eisoes berthynas waith glir gyda Visit Britain ar lefel Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd. Hefyd mae gan Lywodraeth Cymru aelod yn gweithio ar secondiad gyda thîm Visit Britain yn Llundain; cynhaliodd y tîm Twristiaeth a Marchnata nifer o ymweliadau ymgyfarwyddo ar draws Cymru ar gyfer staff Visit Britain er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth am Gymru; ac mae Visit Britain hefyd wedi bod yn rhan o'r sioeau teithiol diweddar gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi cyflwyniad ar eu gwaith cysylltiadau cyhoeddus ynghylch Cymru.

**Diweddariad:**

Mae secondai Llywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda thîm Visit Britain yn Llundain wedi bod yn y swydd ers tair blynedd bellach ac mae dull strwythurol o weithio'n agos wedi ei ddatblygu ar draws pob tîm Visit Britain yn y Brif Swyddfa, a rhennir negeseuon allweddol a chynnwys yn barhaus o Gymru ar draws rhwydwaith byd-eang Visit Britain. Mae'r negeseuon wedi canolbwyntio ar themâu 'Blwyddyn' Cymru, dull a groesawyd gan Visit Britain, gan ei fod yn rhoi cyfeiriad i hyrwyddo Cymru ar draws pob sianel fyd-eang.

Darperir diweddariadau ar gynnig twristiaeth Cymru i dimau ac aelodau staff Visit Britain ar bob lefel, ac maent yn gallu defnyddio lluniau a fideos Croeso Cymru yn eu gweithgareddau, gan sicrhau bod Cymru ar bob un o'r sianeli.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y digwyddiad Cyfnewidfa Busnes Rhyngwladol Visit Britain cyntaf i'w gynnal gan genedl ddatganoledig yng Nghymru fis Hydref 2016, a fynychwyd gan bob un o Reolwyr Gwledydd Visit Britain ac uwch aelodau staff y brif swyddfa. Arddangoswyd cynnyrch Cymru i holl staff Visit Britain a thrwy gyfarfodydd unigol mae'r hyn y maent yn ei wybod am gynnyrch Cymru wedi gwella.

Roedd gan gynrychiolwyr Visit Britain ran allweddol yn y rhaglen yn Uwchgynhadledd Twristiaeth Cymru ym mis Mai 2017, ac roedd hyn yn gyfle iddynt ddeall yn well y diwydiant yng Nghymru ac i gwrdd ag arweinwyr allweddol o'r diwydiant. Bydd timau Visit Britain yn parhau i gymryd rhan yn sioeau teithiol Croeso Cymru a digwyddiadau allweddol eraill.

**Argymhelliad 20.** Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i gynyddu a gwella’r ffordd y mae Visit Britain yn hyrwyddo Cymru. (Tudalen 48)

**Ymateb: Derbyn**

Yn ogystal â'r ymateb i argymhelliad 19 uchod, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Visit Britain ar lefel weithredol - gan gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chyflwyno ymgyrchoedd mawr, gan gynnwys yr ymgyrch fyd-eang Countryside is GREAT, sy'n cael ei lansio ym mis Ionawr 2015. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i raglenni Visit Britain – yn arbennig mentrau cysylltiadau cyhoeddus a rhaglenni Teithiau Masnach mewn marchnadoedd tramor.

Mae'r ymgyrch GREAT, sy'n cael ei chyflawni gan Lywodraeth y DU, yn sylfaen i waith Visit Britain. Yn ogystal â gweithio gyda Visit Britain ar brosiectau twristiaeth GREAT, mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cryfhau'n sylweddol ein perthynas gyda thîm canolog yr ymgyrch GREAT, ac wedi cynhyrchu dros 15 o asedau newydd o Gymru i helpu partneriaid rhyngwladol i hyrwyddo Cymru o amgylch Uwchgynhadledd NATO. Mae modd eu defnyddio bellach yn y tymor hir.

**Diweddariad:**

Mae Croeso Cymru wedi datblygu dull strwythurol o weithio’n agos ar draws pob tîm Visit Britain yn y Brif Swyddfa, a rhennir negeseuon allweddol a chynnwys yn barhaus o Gymru ar draws rhwydwaith byd-eang Visit Wales. Mae’r negeseuon yn ymwneud â themâu ‘Blwyddyn’ Cymru, dull a groesawyd gan Visit Britain, gan ei fod yn rhoi ffocws ar gyfer hyrwyddo Cymru ar draws pob sianel fyd-eang, sy’n profi’n llwyddiant. Soniodd timau rhyngwladol Visit Britain am ansawdd uchel cynhyrchion marchnata Croeso Cymru - yn arbennig y ffilmiau.

Mae’r ffordd y hyrwyddodd Visit Britain Gaerdydd a Chymru, ar gyfer Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA, yn enghraifft ddiweddar o sut y mae Visit Britain yn hyrwyddo Cymru yn eu sianeli, a chyrhaeddodd hyn nifer sylweddol o bobl yn y marchnadoedd Ewropeaidd, yn arbennig marchnad Sbaen, a ledled gweddill y byd. Gweithiodd timau Llywodraeth Cymru gyda Visit Britain a Llysgenhadaeth Brydain ar ddigwyddiad ar y cyd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ym Madrid, mewn partneriaeth ag Iberia Express, cyn y digwyddiad ar gyfer Cynghrair Pencampwyr UEFA.

Mae Visit Britain yn darparu cyfleoedd am bartneriaethau o ansawdd uchel ac mae Croeso Cymru yn cyfrannu cynnwys yn barhaus i ymgyrchoedd masnachol mewn partneriaeth mewn marchnadoedd GREAT ledled y byd. Darparwyd cynnwys aml-sianel ar gyfer partneriaethau megis Expedia, STA a’r Guardian, ymgyrchoedd ffilmiau diweddar: King Arthur: Legend of the Sword a’r BFG, a hefyd partneriaeth BBC Worldwide sy’n hyrwyddo Cymru ar sianeli byd-eang.

Mae Cymru yn cael ei chynnwys yn ymgyrch ddomestig flynyddol y DU, a arweinir gan Visit England, sy'n targedu cynulleidfa'r 'millennials' yn y DU.

**Ar gyfer yr A-Y**
Yn unol â blaenoriaeth Visit Britain i wneud ymweld â Phrydain yn haws i ymwelwyr rhyngwladol, mae Croeso Cymru yn cydweithio'n agos â Visit Britain ar ei ymgyrch 'Final Mile', sy'n targedu diwydiant twristiaeth Prydain a mentrau eraill er mwyn annog y diwydiant yng Nghymru i ddenu ymwelwyr rhyngwladol.

Mae Croeso Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r ymgyrch GREAT, ochr yn ochr â chydweithwyr ehangach Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrch a ariannwyd yn rhannol gan yr Ymgyrch GREAT i hybu Blwyddyn Antur Cymru mewn marchnadoedd gerllaw yn Ewrop. Mae secondai Croeso Cymru yn Llundain yn cyfarfod yn rheolaidd â Swyddog Ymgyrch Great sydd wedi'i neilltuo i Gymru er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd posibl i hybu Cymru yn rhyngwladol ac i'w briffio am ymgyrchoedd Cymru a'u cynnwys.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Visit Britain i sefydlu targedau heriol ar gyfer twf i Visit Britain er mwyn cynyddu twristiaeth yng Nghymru. (Tudalen 48)

**Ymateb: Derbyn**

Galwyd yn gryf am hyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cymreig ar dwristiaeth ac adolygiad bob tair blynedd Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU o Visit Britain.

Diweddariad:

Mae’r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi pennu targedau penodol i Visit Britain i gynyddu lefel y gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol yng Nghymru yn sgil gweithgareddau Visit Britain. Mae cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn cael ei adolygu gyda Visit Britain.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda’r diwydiant i wella’r ffordd y mae Croeso Cymru yn darparu gwaith ymchwil amserol a diduedd ar weithgarwch twristiaeth a thueddiadau yng Nghymru. (Tudalen 50)

**Ymateb: Derbyn**

Mae grŵp gorchwyl a gorffen (dan gadeiryddiaeth aelod o'r Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth, yr Athro Nigel Morgan a chynrychiolwyr o'r diwydiant) ar hyn o bryd yn adolygu gwaith ymchwil a gwybodaeth am y farchnad. Bydd adroddiad terfynol, gydag argymhellion, yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth yn gynnar yn 2015.

**Diweddariad:**

Cwblhawyd yr adolygiad o Croeso Cymru ac mae’r canfyddiadau’n cael eu gweithredu i wella’r ddarpariaeth o sylwadau a chanfyddiadau ymchwil o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o berfformiad a thueddiadau’r diwydiant yn ystod 2016 yn rhan o’r adolygiad interim o’r strategaeth Partneriaeth Twf.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth sy'n esbonio sut y bydd Croeso Cymru yn gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau er mwyn gwella'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer y diwydiant twristiaeth, gan gynnwys dyddiadau cyflawni a chanlyniadau a fwriedir. (Tudalen 51)

**Ymateb: Derbyn**

Cynhaliwyd gweithdy ar weithredu'r cynllun gweithredu ar sgiliau ar 30 Medi 2014, gydag AdAS, aelodau o'r Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth a'r diwydiant yn cynhyrchu nifer o gamau i'w gweithredu ar y cyd. Yn eu plith roedd datblygu dealltwriaeth ar y cyd, ar sail tystiolaeth, o'r materion sgiliau sydd angen sylw er mwyn cyflawni'r strategaeth dwristiaeth, hyrwyddo cyfleoedd am swyddi yn y sector, adeiladu rhwydweithiau rhagoriaeth a galluogi mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid.

**Diweddariad:**

Nid oes gan Is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru (Croeso Cymru) gylch gwaith i ariannu na darparu hyfforddiant yn y diwydiant. Fodd bynnag, datblygwyd cynllun gweithredu sgiliau i gyflawni blaenoriaethau datblygu Pobl yn y strategaeth Partneriaeth Twf Twristiaeth. Mae'r cynllun yn cynnwys gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau (DFES) a'r sector Addysg a hyfforddiant i sicrhau bod twristiaeth yn cael ei gynrychioli mewn cysylltiad â strwythurau hyfforddiant a chymwysterau.

Mae Croeso Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Diwydiant i gyfeirio a rhoi gwybodaeth ar ddarparu sgiliau a chyllido i gyflogwyr a chyflogeion.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal cynllun arian cyfalaf (megis y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth) i fusnesau twristiaeth wella eu cyfleusterau. (Tudalen 52)

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn parhau i helpu'r diwydiant i ddatblygu.

**Diweddariad:**

Ychwanegwyd dwy fenter at y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) o dan Raglen Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sef Cronfa Fusnes Micro Bychan, a’r Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth. Mae £2 miliwn ychwanegol hefyd ar gael trwy’r TISS i ddatblygu a buddsoddi mewn prosiectau lefel strategol sy’n gysylltiedig â Gwestai 4 seren, meithrin Atyniadau a Chyrchfannau arloesol.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru ail-werthuso a oes angen parhau â'r gofyniad bod yn rhaid cymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru cyn cael arian o dan y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, o ystyried y ffordd y caiff llety twristiaeth ei farchnata drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn bennaf erbyn hyn. (Tudalen 52)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Visit England a Visit Scotland, yn adolygu'r ffordd mae sicrwydd ansawdd yn cael ei ddarparu. Bydd y gofynion ar gyfer graddio yng nghyd-destun cyllid y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

**Diweddariad:**

Mae cyllid o'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth yn cadw'r cysylltiad rhwng buddsoddiad ac ansawdd ar hyn o bryd, ar y sail bod targedu cynnyrch o safon dda yn cyflawni perfformiad ac effaith economaidd sy'n well.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth am arian yn fwy tryloyw drwy gyhoeddi dadansoddiad o’r cyfanswm o £20 miliwn i ddiwydiant twristiaeth Cymru a ffigurau cymharol i’w gwneud yn bosibl i randdeiliaid asesu’n wrthrychol sut mae ariannu ar gyfer diwydiant twristiaeth Cymru yn cymharu â rhannau eraill o’r DU. (Tudalen 54)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Yn hanesyddol, bu’n anodd cymharu gwariant ar dwristiaeth yma yng Nghymru â gwariant mewn rhannau eraill o’r DU, a hynny am fod gwahaniaethau o ran strwythurau llywodraeth a chyfrifoldebau portffolio, a hefyd o ran sut y mae cyllidebau/gwariant cysylltiedig yn cael eu defnyddio ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau o fewn portffolios. Mae gwerth £20 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer 2014-15, ac fe’i defnyddir yn bennaf ar gyfer y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth; gwaith datblygu; gwaith marchnata ar gyfer gweithgarwch domestig, gweithgarwch busnes a gweithgarwch rhyngwladol; a digwyddiadau mawr. Mae’r gyllideb honno’n ddigon hyblyg i ganiatáu inni ymateb i unrhyw flaenoriaethau a chyfleoedd a all godi ym maes twristiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae’r gyllideb graidd hefyd yn ysgogi cyllid Ewropeaidd ychwanegol ac arian cyfatebol oddi wrth y sector preifat.

**Diweddariad:**

Fel y nodwyd, mae cymariaethau â rhannau eraill o’r DU yn anodd ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Oherwydd bod gwahanol strwythurau a chyfrifoldebau portffolio, ni fyddai’n bosibl cymharu tebyg â’i debyg. Er hyn, mae bob amser yn werth nodi nad yw’r ffigurau a gyhoeddir yng Nghymru ar gyfer Twristiaeth a Marchnata, a Digwyddiadau Mawr, yn cynnwys costau staff a chostau gweithredu yn gyffredinol.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod y budd sylweddol o fuddsoddi mewn twristiaeth a chyllidebau'r gwledydd eraill y mae Cymru yn cystadlu â hwy. Yng ngoleuni hyn, dylai adolygu a yw ei chyllideb ar gyfer twristiaeth yn ddigonol i alluogi Cymru i gyflawni ei photensial o ran twristiaeth. (Tudalen 55)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gydnabod gwerth twristiaeth i economi Cymru ac yn cyllidebu yn unol â hynny. Fel y gwelwyd drwy gydol y flwyddyn, gellir dod o hyd i adnoddau ychwanegol o gyllidebau eraill adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gyfer prosiectau cyfalaf â blaenoriaeth.

**Diweddariad:**

Cynyddodd y gwariant ychwanegol gan ymwelwyr a ddylanwadwyd gan fentrau marchnata Croeso Cymru o £238 miliwn yn 2014 i £361 miliwn yn 2016, sy'n gynnydd o 52%. Mae sefyllfa'r gyllideb yn cael ei adolygu'n barhaus ac mae cyllidebau y tu hwnt i 2017/18 yn cael eu pennu ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 28.** O ystyried gwerth twristiaeth i economi Cymru a'r amrywiaeth cyfoethog o asedau naturiol, asedau diwylliannol ac asedau eraill yng Nghymru, credwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru, sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra ar gael i fanteisio i'r eithaf ar arian yr UE er mwyn helpu i dyfu'r diwydiant yng Nghymru. (Tudalen 56)

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen seilwaith twristiaeth drwy gronfeydd strwythurol 2014 - 2020. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ar gyfres o brosiectau a fydd yn cael eu datblygu, gan adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol lle bynnag y bo'n bosibl, a pharhau i ddatblygu cynnig o ansawdd uchel ar sail yr amrywiol asedau naturiol a diwylliannol sydd gan Gymru i'w cynnig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu cynllun i gyrraedd at gyllid fel rhan o gais ehangach yr adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

**Diweddariad:**

Cymeradwywyd bod y rhaglen Cyrchfan Denu Twristiaid yn derbyn £27.7 miliwn o'r ERDF tuag at gyfanswm cost prosiect o £48 miliwn a fydd yn gweld un ar ddeg o brosiectau seilwaith strategol yn cael eu gwireddu hyd at 2021. Y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo a'u lansio hyd yn hyn yw Rock UK, Glannau Conwy, Harbwr Porthcawl a phrosiect Glannau Caernarfon. Mae swyddogion yn y broses o gyflwyno'r cynlluniau busnes unigol sydd yn weddill i WEFO i'w cymeradwyo.

Mae'r tri chynllun busnes a gyflwynwyd i'r adran Datblygu Gwledig bellach wedi'u cymeradwyo a byddant yn darparu £12.7 miliwn ychwanegol ar gyfer gweithgareddau marchnata a datblygu hyd at 2021.

**Atodiad D**

**Diweddariad i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes o'r enw 'Dull Llywodraeth Cymru o Hyrwyddo Masnach a Mewnfuddsoddi'**

Tachwedd 2014

Roedd deg argymhelliad yn yr adroddiad blaenorol. O’r rhain mae’r argymhellion a amlinellir isod yn ymwneud â chymorth i gyflawni masnach a mewnfuddsoddi. Mae’r diweddariad isod yn cynnwys yr ymateb gwreiddiol ac, os yw’n briodol, yn rhoi diweddariad ar weithgarwch sy’n ymwneud â’r argymhelliad pan fo wedi’i dderbyn.

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol er mwyn asesu p'un a yw'r dull gweithredu mewnol presennol mewn perthynas â chefnogi masnach a mewnfuddsoddiad yn arfer da ac yn cynnig gwerth am arian.**

Ymateb: Gwrthod

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gynyddu cyfranogiad y sector preifat o ran denu mewnfuddsoddiad.**

Ymateb: Derbyn
Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â'r sector preifat er mwyn denu mewnfuddsoddiad. Pan fo’n briodol, rydym yn ymgysylltu â’r Ardaloedd Menter i ddangos yr hyn y maent yn ei gynnig i gwmnïau sy’n ystyried buddsoddi yng Nghymru. Hefyd, mae'r Ganolfan Gwyddorau Bywyd yn dwyn ynghyd y sector cyhoeddus a'r sector preifat, academia a sefydliadau gofal iechyd i gefnogi a chyflwyno gweithgareddau mewnfuddsoddi yn y sector, ac rydym yn parhau i hyrwyddo’r gwasanaeth hwn. Ers yr adroddiad diwethaf, rydym wedi cefnogi wyth cwmni i fuddsoddi yng Nghymru, gyda chymorth y Ganolfan Gwyddorau Bywyd. Mae manylion y buddsoddiadau hyn yn gyfrinachol am resymau masnachol.

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth yn nigwyddiadau UKTI. Nid oes angen i'r gynrychiolaeth hon o reidrwydd fod ar lefel Gweinidogion na swyddogion, ond gallai gynnwys y paneli sector neu bartneriaid sector preifat yn fwy.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor
Fel y nodwyd yn nhystiolaeth wreiddiol Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor, mae UKTI (neu'r Adran Masnach Ryngwladol erbyn hyn) yn cynnal cannoedd o ddigwyddiadau yn y DU ac yn fyd-eang bob blwyddyn.

Ysgrifennodd Cyn Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at y Gweinidog Gwladol dros Fasnach a Buddsoddi ar y mater hwn er mwyn sicrhau bod ein timau tramor yn cael eu gwahodd i fynychu digwyddiadau a gynhelir gan Lywodraeth y DU fel mater o drefn. Mae’n anodd meintioli union

lwyddiant y dull hwn oherwydd bod y cyfrifoldeb ar yr Adran Masnach Ryngwladol i wahodd Llywodraeth Cymru i ddigwyddiadau; fodd bynnag, rydym yn parhau i fod â chynrychiolaeth mewn digwyddiadau a gynhelir gan yr Adran Masnach Ryngwladol, gan gynnwys derbyniadau mewn Llysgenadaethau Prydain byd-eang i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol tryloyw sy'n dangos perfformiad mewnfuddsoddi blynyddol economi Cymru. Dylai'r dangosyddion gynnwys nifer y prosiectau newydd, mentrau ar y cyd ac achosion o gaffael, ehangu a chadw; ac, ar gyfer pob un o'r mathau hyn o brosiectau, nifer y swyddi a grëwyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd a chyfanswm gwerth y buddsoddiad cyfalaf neu'r gwariant dan sylw. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfres gyfatebol o ffigurau ar gyfer prosiectau y bu'n uniongyrchol gysylltiedig â hwy, gan ddangos hefyd faint o adnoddau ariannol a neilltuwyd ganddi wrth sicrhau'r prosiectau.**

Ymateb: Gwrthod

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mesurau perfformiad allweddol blynyddol ar gyfer y cymorth a ddarperir ganddi i allforwyr, gan gynnwys manylion cenadaethau a ffeiriau masnach; nifer y cyfranogwyr busnes sy'n cymryd rhan ymhob digwyddiad; gwerth yr archebion a enillir; gwerth cyfleoedd posibl i gwmnïau fynd ar eu trywydd; a chyfanswm cost y rhaglen cenadaethau a ffeiriau.**

Ymateb: Gwrthod

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, ei dyheadau ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi; gan gynnwys y marchnadoedd a'r sectorau rhyngwladol sydd o bwys strategol i Gymru, yn ei barn hi; sut y bydd yn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd yn y marchnadoedd hynny; a sut y bydd yn gweithio gyda buddsoddwyr presennol o dramor a darpar fuddsoddwyr o dramor i gynnal busnes yng Nghymru ac yn eu helpu i wneud hynny.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor
Cyhoeddwyd ein strategaeth ryngwladol ‘Cymru yn y Byd’ yn 2015. Yn dilyn Refferendwm y DU, cyhoeddwyd hefyd Bapur Gwyn, sy’n nodi ein blaenoriaethau o ran y dull o adael yr UE. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal ymarfer cynllunio busnes i bennu’r sectorau a’r marchnadoedd allweddol sydd o bwys strategol i Gymru yn ystod y blynyddoedd nesaf.